Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 26AIN GORFFENNAF, 2019**

Lleoliad

**Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8DU**


Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**LowriHafEvans@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 19/07/19)

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Sam Rowlands | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| David Jones | Coleg Cambria |
| Is-ganghellor, yr Athro Graham Upton | Prifysgol Bangor |
| Ashley Rogers | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Sasha Davies | Bwrdd Cyflenwi Busnes |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Colin Everett | Cyngor Sir y Fflint |
| Judith Greenhalgh | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. COFNODION 5 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 21.6.19 a 28.6.19 fel rhai cywir

## 4. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH A COFRESTR RISG Y BUE 13 - 46

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol

## 5. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF (MEHEFIN 2019) 47 - 53

Adroddiad gan Dafydd L Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

## 6. CAIS ADEILADU CAPASITI SEFYDLIADOL ESF 54 - 59

Adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Mae'r adroddiad ynglyn a drafft dogfen Pennawdau Telerau Drafft Bargen Twf Gogledd Cymru sydd wedi ei ddynodi yn ddogfen gyfrinachol gan Adran y Llywodraeth ar gyfer darpariaethau Adran 100 (A)(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gan hynny mae'n ofynnol eithrio'r adroddiad rhag ei chyhoeddi gan y byddai yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

## 8. PENAWDAU'R TELERAU

I ystyried yr adroddiad

(copi ar wahân i'r Aelodau yn unig)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 21.6.19

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Swyddogion yn bresennol - Iwan Evans (Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Sasha Davies (Bwrdd Cyflawni Busnes), Dafydd Edwards (Cyngor Gwynedd) a David Jones (Coleg Cambria).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2019 fel rhai cywir.

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r**

**paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**8. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y Corff Atebol.

**PENDERFYNWYD i gynnig y swydd i Mr Iwan Trefor Jones, gan awdurdodi Prif Weithredwr y Corff Atebol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gadarnhau yr amodau a'r telerau yn unol â chyfarwyddyd y Cyd-bwyllgor.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Gweithredu i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Cynllun Twf.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 5.30yp.

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 28 Mehefin 2019

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Dyfrig L. Siencyn (Cyngor Gwynedd) Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro David Thomas (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria) ac Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy).

Prif Swyddogion – Anwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Nicola Stubbins(Cyngor Sir Ddinbych), Ian Bancroft (Cyngor Wrecsam) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol - Ffion Madog Edwards (Cynrychioli'r Swyddog Adran 151), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol) ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a cyflwynwyd ymddiheuriadau gan Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), David Jones (Coleg Cambria) Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Is Ganghellor, Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor), Dafydd Edwards (Swyddog Adran 151) a Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Gadawodd y Cyfarwyddwr Arweiniol ac yr Uwch Swyddog Gweithredol y cyfarfod ar gyfer yr eitem frys oherwydd buddiant.

## 3. MATERION BRYS

Nodwyd fod un mater brys i'w drafod – Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen.
Penderfynwyd trafod yr eitem hon ar ddiwedd y cyfarfod.

## 4. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNIAD**

Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen diweddaru cynnydd y tasgau ar y Rhaglen Waith

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Bwrdd yn agosáu at Benawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf ac y bydd modd eu harwyddo cyn diwedd Gorffennaf. Mynegwyd fod Sesiwn Herio gyda'r Sector Breifat a Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru bellach wedi ei gynnal a oedd wedi bod yn gadarnhaol gydag adborth positif.

Tynnwyd sylw ar £7miliwn sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y Llywodraeth fel rhan o'r Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Leol. Ychwanegwyd fod y swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol wedi ei hysbysebu.

Mynegwyd fod llythyr diweddariad wedi ei anfon at Ken Skates AC , Alun Cairns AS a Kevin Foster AS yn dilyn y cyfarfod diwethaf, ac y bydd gohebiaeth debyg yn cael eu hanfon yn dilyn bob cyfarfod y Bwrdd Uchelgais.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd y cyfarfodydd herio gan nodi fod y sesiwn gyda'r Sector breifat yn gadarnhaol gydag awgrymiadau adeiladol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd arwyddo Penawdau'r Termau cyn diwedd Gorffennaf.
- Mynegwyd fod angen pwysleisio a chyfleu fod pawb a rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau fod y Cynllun Twf yn gweithio ac nid yr awdurdodau yn unig.
- Mynegwyd pryderon am rhai o gynlluniau sydd i'w gweld yn yr ail don, gan fod rhai cwmnïau yn barod i gyfrannu yn ariannol. Mynegwyd fod angen bod yn hyblyg gyda phrosiectau a manteisio ar gyfleodd pan yn codi. Ychwanegwyd y bydd sesiynau herio ar gyfer y cynlluniau'r ail don yn cael ei gynnal yn fuan.
- Mynegwyd fod angen amserlen o ran penderfyniadau fydd angen ei wneud gan yr awdurdodau fel bod modd eu rhaglennu yn eu trefniadau Cabinet a Chynghorau llawn.
- Tynnwyd sylw at y cylchlythyr syml sydd wedi ei greu ond nodwyd fod angen gwybodaeth bellach mwy manwl yn arbennig ar gyfer Craffu gan nodi'r 14 prosiect arno bob tro gyda diweddariad ar bob prosiect.

## 5. STRWYTHUR Y SWYDDFA RAGLEN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo strwythur craidd y Swyddfa Rhaglen fel y nodwyd yn yr adroddiad a symud at recriwtio ar yr amod nad yw'n ychwanegu ar gyfraniadau ariannol craidd y Cynghorau a'r Partneriaid.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn bwrw ymlaen a datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf, bydd angen sefydlu Swyddfa Raglen. Bydd y swyddfa Raglen yn gyfrifol am gefnogi gweithgareddau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a fydd hefyd yn gyfrifol am fwrw ymlaen ag elfennau allweddol o Gynllun Twf.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod egwyddor y Swyddfa Raglen wedi ei dderbyn gan y Cydbwyllgor ond fod angen symud ymlaen. Ychwanegwyd fod amrywiol ffynonellau yn

ariannu'r Swyddfa Raglen ond y bydd angen anelu i fod yn hunan arianol mewn pum mlynedd. Mynegwyd fod angen datblygu'r swyddfa raglen er mwyn bwrw ymlaen a datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf.

Ymhelaethwyd at y ffrydiau ariannol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer ran-ariannu costau'r swyddfa raglen yn benodol cais am arian ESF yn ogystal a elfen o gyfalafu prosiectau ar raddfa o tua 0.75% - 1%. Ychwanegwyd y bydd lefel isel y cyfalafu yn sicrhau y bydd arian craidd y cynllun twf yn cael ei ddefnyddio yn benodol ar brosiectau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gan fod llawer o brosiectau'r ffrwd gyntaf yn barod fod angen symud ymlaen i ddechrau recriwtio.
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes elfen gweinyddiaeth wedi ei nodi yn strwythur staffio.
- Trafodwyd ariannu'r swyddfa raglen gan nodi eu bod yn hapus i gyfalafu prosiectau ar raddfa o tua 0.75% - 1% ar gyfer costau staffio. Mynegwyd eu bod yn cytuno i symud ymlaen ond ar yr amod na fydd angen i Gynghorau na Phartneriaid wneud cyfraniad ariannol pellach.

## 6. DIRPRWYO A STAFFIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro - Corff Atebol.

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd y pennir strwythur staffio'r Swyddfa Raglen yn ystod cyfnod Cytundeb Llywodraethu 1 ("GA1") gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Cytunwyd i ddirprwyo'r cyfrifoldeb i benodi swyddi ar y strwythur staffio cymeradwy dan lefel y Cyfarwyddwr Rhaglen i'r Cyfarwyddwr Rhaglen ac o fewn y cyfnod interim, Prif Weithredwr Y Corff Atebol yn unol â'r adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Dan GA1 mae gan y Bwrdd Uchelgais rym i ddirprwyo ei swyddogaethau i Is-bwyllgorau a/neu Swyddogion. Un o elfennau allweddol y prosiect yw sefydlu a rheoli Swyddfa Raglen. Er bydd y staff yn gyflogeion i'r Corff Atebol yn gyfreithiol, maent gyfystyr ag adnodd rhanbarthol i'r Bwrdd Uchelgais a chant eu sefydlu a'u hariannu drwy gyllideb y Cydbwyllgor. Felly, mae ar y Bwrdd Uchelgais angen gosod egwyddorion clir yng nghyswllt y trefniadau hyn.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad gan nodi fod angen dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen benodi staff.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd mai mater gweithredol yw'r penderfyniad hwn gan mai penderfyniad ar pwy sydd yn pendoi swyddi yw'r penderfyniad ac nid strwythur staffio. Ychwanegwyd y bydd y swyddi yn cael ei pendoi drwy'r Corff Atebol.

## 7. DIWEDDARIAD TRAFNIDIAETH A CHYNNYDD GYDA SEFYDLU IS-GRŴP TRAFNIDIAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd David Bithell.

**PENDERFYNWYD**

1. Nodi'r adroddiad a'r cynnydd sydd wedi'i wneud i sefydlu'r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth

2. Cadarnhau derbyn y gefnogaeth gyllid a gynigir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodi llofnodi'r llythyr cynnig grant gan yr Awdurdod Lletya.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi penderfynu sefydlu Is Fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth ac adroddwyd ar y cynnydd ar weithredu'r penderfyniad ynghyd a gwaith y Grŵp Trafnidiaeth bresennol wrth drosi i'r strwythur ffurfiol. Adroddwyd ar y materion mwyaf brys yng nghyswllt y rhwydwaith bysiau rhanbarthol a'r dilyniant i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus.

Ymateb i gynnig o grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ymchwil ynglŷn â datblygu cynigion y Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adoddiad gan dderbyn cefndir y Is-Grŵp Trafnidiaeth gan nodi pan ddiddymwyd Consortia Trafnidaieth Rhanbarthol yn 2014, fod yr aelodau Cabinet wedi parahu i gyfarfod yn anffurfiol. Ychwanegwyd eu bod bellach yn awyddus i drefniadau llywodraethu ffufiol i gyfarod nesaf y grŵp.

Amlinellwyd gwaith diweddariad yr Is-grŵp gan bwysleisio Rhwydwaith Bysus rhanbarthol, datgarboneiddio trafnidiaeth a phrosiectau peilot ynghyd a gweithredu parthau 20 milltir yr awr.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod y cyd-weithio sydd i'w weld yn gadarnhaol.
- Holwyd am eglurdeb o ran cynlluniau'r Weledigaeth Twf gan fod rhai o'r cynlluniau yn rhai y dylid cael ei gwneud gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Mynegwyd fod llawer o ddatblygiadau mawr a bach yn cael ei wneud er mwyn gweld intergreddio ar draws y rhanbarth fel datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus.
- Trafodwyd rhai o'r cynlluniau gan bwysleisio fod trafnidiaeth yn rhan ganolog o ddatblygu'r economi.

## 8. RHAGLEN SGILIAU A CHYFLOGAETH, GWELEDIGAETH TWF GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol.

**PENDERFYNWYD**

Gohirio'r penderfyniad i ariannu un swydd gyfwerth a llawn amser (£50,000 am 12 mis) a fuasai'n gweithio ar brosiectau Porth Gwybodaeth a Chyngor a Llwybrau Cyflogadwyedd i

gael cyfle i ystyried y prosiectau yn wyneb y Strategaeth Sgiliau fydd yn dod ger bron y Bwrdd yn fuan, ymchwilio a chael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Prydain am y maes.

Gohirio cadarnhau'r dull cydlynu'r rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd, gan ofyn am wybodaeth bellach ac eglurdeb pellach ar y rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Gofynnodd y Cydbwyllgor am fwy o wybodaeth ac eglurdeb ar y rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth cyn gwneud wneud penderfyniad ar y mater.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r 5 prosiect allweddol, gan nodi fod rhaglen waith glir i symud ymlaen a'r cynlluniau. Ychwanegwyd y bydd y rhaglen yn bwrw ymlaen a'r prosiectau Porth Gwyboaeth a Chyngor a Llwybr Cyflogadwyedd, ond bod angen adnodd ychwanegol i alluogi'r gwaith symud ymlaen. Nodwyd fod gwaith sylweddol wedi ei wneud sydd yn dangos ymarfer da yn y maesydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Codwyd pryderon am yr angen i gael adnodd i symud ymlaen y ddau brosiect: Porth Gwybodaeth a Chyngor; a'r Llwybr Cyflogadwyedd. Ychwanegwyd fod pryderon y byddai'n dyblygu gwaith gyda Llywodraeth Cymru.
- Mynegwyd ei bod yn gyn amserol i wneud y penderfyniad a bod angen mwy eglurdeb ar y 2 brosiect, ynghyd a chynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar ei rôl o fewn y prosiectau ynghyd a'r berthynas rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

**9. SEFYDLU IS-GRŴP YNNI A DIWEDDARIAD AR GYNLLUNIO YNNI RHANBARTHOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rhys Horan, Arweinydd Strategol – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD**

1. Sefydlu Is-grŵp Ynni gyda'r Rôl a Chylch Gorchwyl yn Atodiad 1 yr adroddiad.

2. Penodi Cyng. Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Ynys Môn fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a fydd yn gweithredu fel aelod cyswllt ar gyfer yr Is-grŵp Ynni.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn gwella'r gwaith o gydlynu prosiectau sy'n ymwneud ag ynni o fewn y rhanbarth a chyflawni'r targed ynni carbon Isel sydd wedi'i adnabod yn y Cynllun Twf.

Bod statws Is-grŵp yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu i'w sefydlu yng Nghytundeb Llywodraethu 2.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod datganiadau diweddar yn nodi fod argyfwng hinsawdd gan bwysleisio fod angen i Ogledd Cymru fod ar flaen y gad o ran ynni. Ychwanegwyd fod angen gweithio ar gynllunio ynni rhanbarthol a datblygu'r weledigaeth ac i'r Bwrdd Uchelgais i berchnogi'r cynlluniau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Pwysleisiwyd sut mae'r Is-grŵp yn ffitio i mewn i fframwaith y Bwrdd Uchelgais gan nodi y byddai'n Fwrdd Ymgynghorol.
- Trafodwyd aelodaeth y bwrdd yn benodol Cyfoeth Naturiol Cymru gan nodi o bosib y buasai'n her gan eu bod yn rheoleiddwyr.
- Pwysleisiwyd fod angen sicrhau budd lleol gydag unrhyw ynni carbon isel.

**10. CAU ALLAN Y WASG AR GYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

**11. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN**

**PENDERFYNIAD**

Ail-hysbysebu'r swydd gyda chyflog wedi osod rhwng £86,000 ac uchafswm o £106,000 yn ddarostyngedig i adrodd ar y cyflog arfaethedig i Gyngor Llawn y Corff Atebol fydd yn lletya'r swydd.

**RHESWMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nododd aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn dilyn methu penodi Cyfarwyddwr Raglen, mae angen ail-hysbysebu er gwneud penodiad allweddol o benodi Cyfarwyddwr Rhaglen mor fuan a bod modd, gan sicrhau fod y broses recriwtio a'r trefniadau yn rhai effeithiol a gwydn.

Er cyfarch yr arweiniad statudol "Atebolrwydd Tal o fewn Lywodraeth Leol yng Nghymru – Arweiniad dan Adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar y sefyllfa yn dilyn cyfweliadau diweddar nad oedd penodiad i'r swydd Cyfarwyddwr Rhaglen, ac o ganlyniad fod angen penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Nodwyd fod angen hysbysebu mor fuan â phosib er mwyn sicyrhau cyn-lleied o gyfnod heb Gyfarwyddwr Rhaglen ac sydd yn bosib.
- Penderfynwyd ar yr uchafswm cyflog gan nodi y buasai'r Bwrdd yn derbyn secondiad i'r swydd yn ogystal er mwyn annog diddordeb.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 3.20yp

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**26ain GORFFENNAF, 2019**

**TEITL:** *Diweddariad ar Raglen Waith a Chofrestr Risg y Bwrdd Uchelgais*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Cafodd cais ei wneud gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Rhaglen Waith gael ei gyflwyno i bob cyfarfod bwrdd.

1.2. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei adolygu gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol yn fisol, gwnaeth y Bwrdd Uchelgais gais i weld y Gofrestr Risg yn chwarterol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Adolygu, diweddaru a chymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith.

2.2. Adolygu cynnwys y Gofrestr Risg a chymeradwyo'r meini prawf asesu ar gyfer pob risg.

**3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Diweddaru ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith, ac cyflwyno fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risg.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**4.1. Rhaglen Waith** (Atodiad 1)

4.1.1. Mae'r rhaglen waith yn gosod allan tasgau allweddol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais. Mae'r rhaglen waith yn adnabod 10 categori allweddol, gyda thasgau penodol yn erbyn y categorïau. Mae amserlen a chyfrifoldeb wedi'i osod yn erbyn pob tasg, ynghyd a statws RAG.

4.1.2. Mae pob tasg wedi ei adolygu ac wedi cael statws RAG, yn unol â'r canllawiau isod:

| Statws RAG | Statws y dasg | Camau angenrheidiol |
|---|---|---|
| **GWYRDD** | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddymunol | Dim angen camau rheoli |
| **MELYN** | Efallai bod risg na fydd y dasg yn cyrraedd yr amserlen | Camau rheoli ei angen i fynd i'r afael â materion |
| **COCH** | Mae risg bod y dasg yn mynd i fethu'r dyddiad cwblhau a amserlenwyd | Camau brys eu hangen i fynd i'r afael â materion |

4.1.3. Mae pob tasg yn y Rhaglen Waith efo statws Gwyrdd neu Felyn.

**4.2. Cofrestr Risg** (Atodiad 3)

4.2.1. Mae'r Gofrestr Risg, yn Atodiad 3, yn canolbwyntio ar risgiau'r rhaglen sy'n codi o'r Rhaglen Waith. Mae'r Gofrestr Risg yn rhoi sylw i gyflawni'r rhaglen waith lefel uchel a'i gwaith penodol.

4.2.2. Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen fyw sy'n cael ei adolygu yn fisol gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn chwarterol.

4.2.3. Caiff y Gofrestr Risg ei rheoli, ei hadolygu a'i diweddaru gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu).

4.2.4. Mae pob risg wedi ei adolygu a diweddaru, a gyda statws gwyrdd neu melyn.

**4.3. Diweddariad Cynnydd**

Weler isod fanylion cynnydd tasgau penodol:

**4.3.1. Penawdau'r Telerau**

- Mae Swyddogion y Bwrdd Uchelgais wedi cyflwyno manylion rannu i Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain er mwyn llunio drafft o'r Cytundeb Penawdau'r Telerau.

**4.3.2. Achosion Busnes Amlinellol**

- Mae'r adborth ar yr Achosion Busnes Amlinellol wedi'i rannu gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar y 5ed o Orffennaf 2019. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda Swyddogion y Llywodraethau i drafod prosiectau Gwedd 2.

**4.3.3. Llywodraethu**

- Mae'r Rhaglen Waith yn cynnwys manylion ar pryd fydd angen gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd Uchelgais a Chynghorau unigol. Mae'r tabl isod yn amlinellu pryd fydd angen gwneud penderfyniadau allweddol wrth arwain tuag at y Cytundeb Terfynol a Chytundeb Llywodraethu 2. Dylai pob partner gynnwys y manylion yn ei rhaglenni cyfarfodydd:

| Penderfyniad | BUE | Cyngor |
|---|---|---|
| Cynllun Ariannol | 18/10/2019 | Hydref/Tachwedd 2019 |
| Trefniadau Craffu ar gyfer Cytundeb Llywodraethu 2 | 18/10/2019 | Hydref/Tachwedd 2019 |
| Cytundeb Terfynol | Mai 2020 | Mehefin 2020 |
| Cytundeb Llywodraethu 2 | Mai 2020 | Mehefin 2020 |

- Bydd dau weithdy yn cael eu trefnu ddiwedd Medi / ddechrau Hydref. Un i weithio drwy Cytundeb Llywodraethu 2, a'r ail i drafod trefniadau llywodraethu masnachol ar gyfer prosiectau'r Cynllun Twf. Bydd y gweithdai yn adnabod elfennau allweddol i lywio creu drafft o Gytundeb Llywodraethu 2. Bydd y penderfyniadau a nodir yn y Tabl uchod yn cael eu hadlewyrchu yn Cytundeb Llywodraethu 2, gan baratoi drafft i'w gymeradwyo a'i weithredu'n derfynol ynghyd â'r Cytundeb Terfynol.

- Mynychodd Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais gyfarfod y Bwrdd Cyflawni Busnes cysgodol ar 15/07/2019, weler cofnodion yn Atodiad 4.

- Mae proses apwyntio mewn lle ynghyd a drafft o swydd ddisgrifiad ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes, bydd trefniadau yn cael ei rhoi mewn lle gan y Corff Atebol dros yr wythnosau nesaf i hysbysebu. Weler drafft o'r Swydd Ddisgrifiad yn Atodiad 5.

**4.3.4. Swyddfa Rhaglen**

- Bydd y Swydd Rheolwr Rhaglen Digidol yn cael ei ail hysbysebu yn dilyn Penawdau'r Telerau, bydd hyn yn caniatáu i ni hysbysebu fel swydd barhaol.

- Bydd swyddi'r Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Gweithredol, Rheolwr Rhaglen Ynni a Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo yn cael ei hysbysebu dros yr Haf, gyda phenodiadau yn cymryd lle yn ystod mis Medi 2019.

4.3.5. Mynychodd Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais gyfarfod yr OECD ar y 26ain o Fehefin.

4.3.6. Weler llythyrau gan y Gweinidogion yn Atodiadau 6 a 7. Bydd Ken Skates AC yn mynychu cyfarfod y Bwrdd Uchelgais yn ystod mis Medi 2019.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae'r Rhaglen Waith a'r Gofrestr Risg wedi'u trafod a'i gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 5/07/2019.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Rhaglen Waith |
| **Atodiad 2** | Rhestr o benderfyniadau |
| **Atodiad 3** | Cofrestr Risg |
| **Atodiad 4** | Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cyflawni Busnes cysgodol 15/07/2019 |
| **Atodiad 5** | Swydd Ddisgrifiad Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes |
| **Atodiad 6** | Llythyr Ken Skates AC |
| **Atodiad 7** | Llythyr Kevin Foster AS |

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Cadarnhaf fy mod i wedi adolygu agweddau 'Cyllid' o'r Rhaglen Waith a'r Gofrestr Risg gyda'r awdur. Mae rhai o'r sgôrs risg yn fater o farn a dehongliad, tra mae sawl mater eto i'w gadarnhau, ond credaf fod y Gofrestr Risg yma'n adlewyrchu asesiad teg. Cyflwynir sylwadau pellach, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd."

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**RHAGLEN WAITH SYLFAENOL AR GYFER Y BWRDD UCHELGAIS**

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb | Adrodd | | Statws RAG | Risg wedi adnabod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bwrdd Uchelgais | Cynghorau | | |
| **Penawdau'r Telerau** | • Cymeradwyo Drafft Cynllun Gweithredu'r Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | | Wedi gyflwyno i LlP ac LlC ar 24/03/2019 | HT 05 |
| | Fersiwn derfynol o'r Cynllun Gweithredu | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 20/09/19 | | | |
| | • Cytuno ar lefel briodol a chymesur o asesu a gwerthuso achosion busnes ar gyfer prosiectau'r cynllun twf. | Ch2 2019s | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | HT 04 |
| | • Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer y Cynllun Twf. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | 26/07/19 | | | HT 01 |
| | • Cytuno ar y "cynlluniau ar yr ochr" gyda LlC neu MoUs (er enghraifft Trafnidiaeth, eiddo, Twf Busnes, Sgiliau i gyflawni'r Weledigaeth Twf). | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / LlC | | | | HT 06 |
| **Llywodraethu** | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer yr is-bwyllgorau "anffurfiol" (Sgiliau a Chyflogaeth, Safleoedd ac Eiddo, Busnes ac Arloesi, Twristiaeth). | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | ✓ | | | GO 08 |
| | • Cytundeb ar Drefniadau Craffu. | Ch2/Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor a Trefniadau craffu'r Cynghorau | ✓ | ✓ | | GO 09 |
| | • Ymgymryd â phroses benodi gyhoeddus ar gyfer | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | | | | GO 11 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | y Bwrdd Cyflawni Busnes. | | | | | | |
| | • Trafod a chytuno ar gydweithio a model llywodraethu gyda'r Grŵp Tai | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 26/07/19 | | | |
| | • Trefniadau Llywodraethu / Cyflawni Masnachol | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 26/07/19 | | | |
| | • Cymeradwyo dogfen "Ein dull Gweithredu" sydd yn gosod trefniadau diwylliannol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | ✓ | | | |
| **Cyllid** | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb dros 3 blynedd a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2020 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor<br><br>Bydd cynnydd mewn cyfraniadau yn faterion a gedwir i'r Partïon | | | Bydd yn cael ei adrodd yn ystod Ch1 2020 | FIN 01 |
| | • Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu. | Ch4 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | | | | FIN 02 |
| | • Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol. | Ch3 2019 | Partneriaid a Swyddogion Cyllid y Corff Atebol | | | | FIN 03 |
| | • Cymeradwyo'r Cynllun Cyllidol | Ch4 2019 | Swyddogion Adran 151 / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | 18/10/19 | Hydref/Tachwedd 2019 | | |
| | • Arian Llywodraeth yn cael ei ryddhau ar gyfer prosiectau | Ch2 2020 | Llywodraeth y DU / LlC | | | | |
| **Swyddfa Rhaglen** | • Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 31/10/19 | | | PO 01 |
| | • Cytuno ar ddyluniad, cost a strwythur y Swyddfa Rhaglen. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | 28/06/19 | | | PO 02 |
| | • Cytuno ar Gais Capasiti Sefydliadol ESF i gefnogi gyda gwaith y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | 26/07/19 | | | PO 03 |
| | • Penodi Rheolwyr Rhaglen o fewn y Swyddfa Rhaglen. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | | | Swydd ddisgrifiad cyffredinol drafft wedi baratoi | PO 04 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | • Cytuno ar y Broses Cymeradwyo Prosiectau (a'r broses ddirprwyo). | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | CSP 01 |
| | • Cytuno ar brosiect Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 20/09/19 | | | CSP 02 |
| | • Cytuno ar Memorandwm cyd-ddealltwriaeth | Ch1 2020 | Cyd-bwyllgor | Mawrth 2020 | | | CSP 02 |
| | • Cyflwyno'r prosiect LFFN. | Ch2 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Datblygu Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer Prosiectau'r Cynllun Twf. | Ch2/Ch3 2019 ymlaen | Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Cwblhau Achosion Busnes llawn ar gyfer y prosiectau cyntaf | Ch3 2020 | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | |
| | • Gweithredu prosiectau | 2020/21 | Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Cymeradwyo'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | 20/09/19 | | | |
| **Cyfreithiol a Chaffael** | • Datblygu Templed o Gytundeb Ariannu i alluogi trosglwyddo arian y Cynllun Twf i Awdurdodau Arweiniol y Prosiectau sy'n derbyn yr arian. | Ch3 2019 | Corff Atebol / Swyddogion Adran 151 / Monitro / Cyd-bwyllgor | | | | |
| | • Cytuno ar gynllun prosiect ac amserlen i fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor / Swyddogion Monitro | | | | LP 01 |
| | • Paratoi drafft gweithredol Cytundeb Llywodraethu 2 | Ch2 2019 | Swyddogion Monitro | | | | |
| | • Paratoi drafft terfynol Cytundeb Llywodraethu 2 ar gyfer cymeradwyaeth | Ch1 2020 | Swyddogion Monitro | | | | |
| | • Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2 | Ch3 2020 | Materion sydd wedi'u cadw i'r partïon | ✓ | ✓ | | GO 07 |
| | • Arwyddo y Cynllun Terfynol | Q3 2020 | Materion sydd wedi'u | ✓ | ✓ | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | cadw i'r partïon | | | | |
| | • Cytuno ar Strategaeth Gaffael y Cynllun Twf. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | ✓ | | | LP 02 |
| **Monitro ac Arfarnu** | • Cytuno ar Gynllun Monitro ac Arfarnu. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | ✓ | | | MP 02 |
| | • Gwerthuso effaith prosiectau | 2020/21 | Cyd-bwyllgor | | | | |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Adroddiad cynnydd chwarterol i bartneriaid | Chwarterol o Ch2 2019 | Swyddfa Rhaglen | | | | |
| **Swyddogaeth Ranbarthol Strategol** | • Edrych i mewn i swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gweithrediad y cynllun a gweithgareddau datblygu ehangach. | Parhaus | Cyd-bwyllgor / Llywodraeth y DU / LlC | | | | |
| | • Cytuno ar brotocol gyda Gweinidog Gogledd Cymru a'r Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol newydd. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor / Gweinidog Gogledd Cymru / Pwyllgor Sefydlog Rhanbarthol | | | | |
| **Rheoli Cyflawni** | • Pob Bwrdd Prosiect yn ei le i gydlynu cyflawni'r prosiectau sydd wedi'u comisiynu. | Parhaus | Arianwyr y Prosiectau | | | | GO 08 |

**TASGAU WEDI CWBLHAU**

| Categori | Gweithred | Amserlen (Chwarteri, blwyddyn galendr) | Cyfrifoldeb | Adrodd | | Statws RAG | Risg wedi adnabod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bwrdd Uchelgais | Cynghorau | | |
| **Penawdau'r Telerau** | • Cymeradwyo "Rhaglenni" ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. (3 Maes Thematig Allweddol a 4 Hwylusydd Allweddol). | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | |
| | • Asesu'r opsiynau a chytuno ar ffordd ymlaen ar y gyllideb o £240 miliwn sydd gael gan Lywodraeth y DU/Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Twf. (Cynllun Gweithredu Drafft) | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | HT 05 |
| | • Adolygu Achosion Busnes Amlinellol i gyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Drafft. | Ch1 2019 | Y Grŵp Cefnogaeth Weithredol | | | WEDI GWBLHAU | HT 04 |
| | • Cymeradwyo/Adborth ar yr Achosion Busnes Amlinellol | Ch2 2019 | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | | WEDI GWBLHAU | HT 04 |
| | • Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. | Ch2 2019 | Cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | | WEDI GWBLHAU | HT 02 |
| **Llywodraethu** | • Ffurfio'r Cyd-bwyllgor yn ffurfiol. | Ch1 2019 | Corff Atebol | 1/02/19 | | WEDI GWBLHAU | GO 03 |
| | • Trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | GO 03 |
| | • Cytuno ar Gylch Gorchwyl ac ymgysylltiad gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes (bwrdd | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/05/19 | | Adroddiad i'r BUEGC ar 17/05/2019 | GO 10 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymgynghorol y sector preifat). | | | | | | |
| | • Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | 1/02/19 | | WEDI GWBLHAU | GO 05 |
| | • Adnabod cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer is-bwyllgorau, yn benodol yr is-bwyllgor trafnidiaeth a'r is-bwyllgor digidol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | | | WEDI GWBLHAU | GO 08 |
| | • Adnabod a dewis yn derfynol y Corff Atebol ar gyfer GA2. | Ch3 2019 | Cyd-bwyllgor | | | | GO 07 |
| **Cyllid** | • Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb ar gyfer 2019/20 a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid. | Ch1 2019 | Corff Atebol / Cyd-bwyllgor | 15/3/19 | | WEDI GWBLHAU | FIN 01 |
| | • Cytuno ar gyllideb ar gyfer y Corff Atebol. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | 15/3/19 | | WEDI GWBLHAU | FIN 01 |
| **Swyddfa Rhaglen** | • Cytuno ar y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor / Corff Atebol | 1/02/19 | | WEDI GWBLHAU | PO 01 |
| **Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd** | • Hyfforddiant Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer arweinwyr prosiect | Ch2 2019 | Partneriaid | | | WEDI GWBLHAU | |
| **Monitro ac Arfarnu** | • Datblygu Cofrestr Risg y Rhaglen. | Ch1 2019 | Cyd-bwyllgor | 12/04/19 | | WEDI GWBLHAU | MP 01 |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/05/19 | | WEDI GWBLHAU | SEC 01 |
| | • Cytuno ar Gynllun a phrotocol Cyfathrebu. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/05/19 | | WEDI GWBLHAU | SEC 01 |
| | • Datblygu a chytuno ar gynllun ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid gwleidyddol. | Ch2 2019 | Cyd-bwyllgor | 17/05/19 | | WEDI GWBLHAU | SEC 01 |

**Penderfyniadau cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais**

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Swyddog Cyswllt | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| 1af o Chwefror 2019 | Mater brys - proses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Rhaglen | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr | 1. Dirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor i;<br>a. baratoi swydd-ddisgrifiad a manylion person ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen,<br>b. cynnal proses arfarnu swyddi yn unol â threfniadau Cyngor Gwynedd ar y swydd er mwyn gosod y cyflog,<br>c. symud ymlaen i hysbysebu'r swydd.<br>2. Bod adroddiad yn argymell y drefn benodi o hynny ymlaen yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cyd-Bwyllgor. |
| | Rhaglen waith gychwynnol y Bwrdd Uchelgais a threfniadau Cyfarfodydd y dyfodol | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cytuno ar y rhaglen waith lefel uchel ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros y 6-9 mis nesaf.<br>2. Cytuno ar amserlen o gyfarfodydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd tan ddiwedd y flwyddyn galendr. |
| 15fed o Fawrth 2019 | Llywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Iwan Evans, Swyddog Monitro Corff Atebol | 1. Derbyn yr adroddiad<br>2. I dderbyn y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn belled y mae'n rhesymol bosib yn cyfarfod mewn un lleoliad priodol yng Ngogledd Cymru yn ôl unol a'r adroddiad.<br>3. Yn ddarostyngedig i sefydlu Bwrdd Arweinyddion Busnes ffurfiol. I benodi Cadeirydd y Grwp Busnes Gogledd Cymru fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a chadarnhau strwythur Ymgynghorwyr.<br>4. Fod adroddiad pellach ar yr Is fyrddau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br>5. I dderbyn Protocol Gweithredol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i gadarnhau hawl i'r Swyddog Monitro ac i'r Swyddog Adran 151 i adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pe cyfyd angen. |
| | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cynllun Gweithredu Drafft | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Rhaglen | Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu fel sail ar gyfer trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gytundeb Penawdau'r Telerau Posib ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i'r addasiadau isod yn cael eu ymgorffori yn y Cynllun:<br>1. Hyblygrwydd o ran amserlennu, proffilio gwariant a blaenoriaethu prosiectau yn Rhan 7 o'r Cynllun Gweithredu ar sail eu haeddfedrwydd a'u fforddiadwyedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Hyblygrwydd ar y pecyn cyllideb gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer gweithredu'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu.<br>3. Ychwanegu amserlen ar gyfer sefydlu Gorffennaf 2019 fel y dyddiad ar gyfer cytuno Penawdau'r Telerau i'r naill Lywodraeth. |
| | Cyllideb 2019-20 | Dafydd L Edwards, Swyddog Adran 151 | 1. Derbyn a mabwysiadu Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer 2019/20, wedi'i rannu rhwng costau'r Swyddfa Rheoli Rhaglen, Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a'r Cydbwyllgor.<br>2. Cymeradwyo'r trefniadau ac ariannu i Gyngor Gwynedd gyflawni swyddogaethau'r Corff Atebol, fel y nodir yn yr adroddiad.<br>3. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen a Swyddog Adran 151 Cyngor Gwynedd i weithredu'r gyllideb a gymeradwyir.<br>4. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant o'r cyn trefniadau cysgodol i Gydbwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd.<br>5. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 i gronfa wrth gefn neilltuol, fydd ar gael i ariannu costau un-tro yn y dyfodol. |
| | Diweddariad ar Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo statws RAG (Red, Amber, Green) pob tasg o fewn y Rhaglen Waith gan nodi fod dau weithred o'r adran Penawdau'r Telerau sydd yn cael ei nodi yn isod yn newid o liw melyn i goch.<br>• Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru<br>• Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf.<br>2. Addasu'r amserlen a'r cyfrifoldeb ar gyfer rhai tasgau yn y Rhaglen Waith, yn unol â'r eglurhad yn rhan 4.3 a 4.4 o'r adroddiad. |
| | Cyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr | 1. Cyfarfod sydd wedi ei amserlennu o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno ar restr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd ar gyfer ystyriaeth bellach.<br>2. Pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu Canolfan Asesu Broffesiynol. Bydda'i Ganolfan Asesu yn cael ei harwain gan asesydd allanol a ddefnyddir gan y Corff Atebol ar gyfer penodi i uwch swyddi. Bydd yr asesydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar berfformiad pob ymgeisydd.<br>3. Cyfweliad ffurfiol gyda phob ymgeisydd ar y rhestr fer mewn cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd i'w drefnu gydag adborth o'r Ganolfan Asesu i'w ddarparu yn y cyfarfod cyn gwneud y penodiad.<br>4. Cytunwyd, yn dilyn asesiad swydd, y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r cyflog o £86,000 i £96,000, gyda'r hyblygrwydd o ychwanegiad y farchnad os y byddai ymgeisydd arbennig yn ymgeisio. |
| 12fed o Ebrill 2019 | Diweddariad ar raglen waith y Bwrdd Uchelgais | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith, yn unol â'r adroddiad.<br>2. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar swydd ddisgrifiad a'r broses o benodi Rheolwr Rhaglen Ddigidol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 3. Ymrwymo hyd at £55,000 (yn amodol ar arfarniad swydd a llwyddiant y Cynllun Twf) o'r gyllideb "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau" ar gyfer ariannu'r swydd Rheolwr Rhaglen Ddigidol am gyfnod o flwyddyn.<br>4. Cyflwyno adroddiad cynnydd chwarterol ar waith y Bwrdd i'r partneriaid unigol ar gyfer dibenion adrodd a chraffu y cyrff unigol. |
| | Cofrestr risg | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo ffurf a strwythur y Gofrestr Risg, a chytuno bod y risgiau a'r statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) sydd wedi'u cynnwys yn gywir ac yn ddigonol a bod y mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi yn gymesur o ystyried y risgiau sydd wedi'u hadnabod.<br>2. Adrodd yn chwarterol ar y risgiau i'r Bwrdd Uchelgais ac yn fisol i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol. |
| | Sefydlu Is-Fwrdd Trafnidiaeth | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Penodi Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth gyda'r Rôl a'r Cylch Gorchwyl wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 i'r adroddiad.<br>2. Penodi Arweinydd Cyngor Sir Fflint, y Cynghorydd Ian Roberts, i weithredu fel aelod cyswllt gyda'r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth. |
| | Bwrdd Cyflawni Busnes | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Gohirio penderfyniad ar y mater hwn hyd oni fydd canlyniad yr ymgynghoriad â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y bwriad yn hysbys.<br>2. Bod y trafodaethau gyda'r Llywodraethau i gychwyn ar sail yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais.<br>3. Rhoi sylw i'r materion canlynol wrth ddarparu drafft pellach o'r adroddiad:-<br>(i) Rôl Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy;<br>(ii) Atebolrwydd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes;<br>(iii) Yr angen i symleiddio rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd;<br>(iv) Pryder bod galwadau cynyddol ar fusnesau i gymryd rhan mewn trefniadau cyffelyb;<br>(v) Materion cyllidol. |
| | Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - gwella trafnidiaeth Gyhoeddus | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Derbyn yr adroddiad cryno ar gynigion Llywodraeth Cymru i Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad. |
| | Adolygiad(au) Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD) | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Derbyn yr adroddiad ar yr argymhellion sydd yn y ddau adroddiad adolygiad, "Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe" ac "Adolygiad Mewnol o Drefniadau Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe<br>2. Nodi'r asesiad RAG (Red, Green, Amber) o statws Cynllun Twf Gogledd Cymru yn erbyn bob un o'r argymhellion. |
| 17ain o Fai 2019 | Diweddariad ar raglen waith y Bwrdd Uchelgais ac ar gynnydd prosiectau | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith a nodi'r diweddariadau ar gynnydd prosiectau unigol, yn unol â'r adroddiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhaglen waith Cytundeb Llywodraethu 2 | Iwan Evans, Swyddog Monitro Corff Atebol | 1. Cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer paratoi a chwblhau Cytundeb Llywodraethu 2, gan ofyn i'r Swyddog Monitro gyplysu'r gweithredoedd yn hanner isaf yr amserlen arfaethedig i gamau perthnasol yn y rhaglen waith. |
| | Bwrdd Cyflawni Busnes | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo rôl a chyfrifoldebau arfaethedig y Bwrdd Cyflawni Busnes, yn ddarostyngedig i addasu paragraff 2.1, Rôl a Chylch Gwaith, drwy gyfuno geiriad paragraff 2.2 yn y trydydd pwynt bwled.<br>2. Cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio.<br>3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer dewis a recriwtio Aelodau'r Bwrdd fel yr amlinellir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i ymgymryd â'r broses recriwtio unwaith y bydd y Cadeirydd wedi'i benodi.<br>4. Cadarnhau'r defnydd o hyd at £20,000 y flwyddyn o gyllideb 'Datblygu a Chefnogi Prosiectau' Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gefnogi'r Bwrdd Cyflawni Busnes.<br>5. Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr y Corff Atebol i sefydlu'r pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn unol â'r adroddiad. |
| | Is-grwp twristiaeth | Jane Richardson, Cyngor Conwy Council | 1. Bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cefnogi'r egwyddor bod y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn ffurfio perthynas ffurfiol gyda'r Bwrdd.<br>2. Bod statws a swyddogaeth y Fforwm yn cael eu datblygu fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu i'w sefydlu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. |
| | Adroddiad alldro 2018-19 a'r ffurflen (datganiadau ariannol Statudol) flynyddol | Dafydd L Edwards, Swyddog Adran 151 | 1. Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19 (Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad).<br>2. Nodi ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi Ffurflen Swyddogol (Datganiadau Ariannol Statudol) Flynyddol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2018/19 (Amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol o 15 Mehefin 2019, oedd wedi'i chwblhau a'i hardystio gan y Swyddog Cyllid Statudol (Atodiad 3 i'r adroddiad). |
| | Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. |
| | Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo'r ymateb i "Ymchwiliad i effeithiolrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig i Gymru" gan y Pwyllgor Materion Cymreig. |
| | Cyfarwyddwr Rhaglen - tynnu rhestr fer | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr | 1. Gosod pedwar ymgeisydd ar restr fer i fynd ymlaen i gyfweliad ar yr 21ain o Fehefin. |
| 28ain o Fehefin 2019 | Mater Brys – Penodi Cyfarwyddwr Rhaglen | | 1. Ail-hysbysebu'r swydd gyda chyflog wedi osod rhwng £86,000 ac uchafswm o £106,000 yn ddarostyngedig i adrodd ar y cyflog arfaethedig i Gyngor Llawn y Corff Atebol fydd yn lletya'r swydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diweddariad ar Rhaglen Waith | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith. |
| | Strwythur y Swyddfa Rhaglen | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Cymeradwyo strwythur craidd y Swyddfa Rhaglen fel y nodwyd yn yr adroddiad a symud at recriwtio ar yr amod nad yw’n ychwanegu ar gyfraniadau ariannol craidd y Cynghorau a’r Partneriaid. |
| | Dirprwyo a Staffio | Iwan Evans, Swyddog Monitro Corff Atebol | 1. Cadarnhawyd y pennir strwythur staffio’r Swyddfa Raglen yn ystod cyfnod Cytundeb Llywodraethu 1 (“GA1”) gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br>2. Cytunwyd i ddirprwyo’r cyfrifoldeb i benodi swyddi ar y strwythur staffio cymeradwy dan lefel y Cyfarwyddwr Rhaglen i’r Cyfarwyddwr Rhaglen ac o fewn y cyfnod interim, Prif Weithredwr Y Corff Atebol yn unol â’r adroddiad. |
| | Diweddariad Trafnidiaeth a Chynnydd gyda Sefydlu Is-Grwp Trafnidiaeth | Y Cynghorydd David Bithell | 1. Nodi’r adroddiad a’r cynnydd sydd wedi’i wneud i sefydlu’r Is-fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth<br>2. Cadarnhau derbyn y gefnogaeth gyllid a gynigir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodi llofnodi’r llythyr cynnig grant gan yr Awdurdod Lletya. |
| | Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth, Gweledigaeth Gogledd Cymru | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol | 1. Gohirio'r penderfyniad i ariannu un swydd gyfwerth a llawn amser (£50,000 am 12 mis) a fuasai’n gweithio ar brosiectau Porth Gwybodaeth a Chyngor a Llwybrau Cyflogadwyedd i gael cyfle i ystyried y prosiectau yn wyneb y Strategaeth Sgiliau fydd yn dod ger bron y Bwrdd yn fuan, ymchwilio a chael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Prydain am y maes.<br>2. Gohirio cadarnhau'r dull cydlynu’r rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd, gan ofyn am wybodaeth bellach ac eglurdeb pellach ar y rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth. |
| | Sefydlu Is-Grwp Ynni a Diweddariad ar Gynllunio Ynni Rhanbarthol | Rhys Horan – Arweinydd Strategol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 1. Sefydlu Is-grŵp Ynni gyda’r Rôl a Chylch Gorchwyl yn Atodiad 1yr adroddiad.<br>2. Penodi Cyng. Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Ynys Môn fel aelod o’r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a fydd yn gweithredu fel aelod cyswllt ar gyfer yr Is-grŵp Ynni. |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

## Cofrestr Risg y Rhaglen

## Cam Cynllunio a Datblygu (Cyn Penawdau'r Telerau)

| Cyfeirnod | Teitl | Disgrifiad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PENAWDAU'R TELERAU** | | | | | | | | | | |
| HT 01 | Penawdau'r Telerau | Methu cyrraedd Penawdau'r Telerau o fewn yr amserlen gytunedig<br><br>Er mwyn cyflawni Penawdau'r Telerau erbyn 31/07/2019 mae llawer i'w wneud ac mae hynny'n awgrymu risg uchel o beidio â chyflawni Penawdau'r Telerau mewn pryd. | 4 | 7 | 28 | (1) Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ar gais y ddwy Lywodraeth.<br>(2) Ymagwedd i Benawdau'r Telerau fel y nodwyd o fewn y llythyrau i'r ddwy Lywodraeth (25/03/2019).<br>(3) Achosion Busnes Amlinellol boddhaol i'r llywodraethau.<br>(4) Sesiynau Herio gyda Gweinidogion y ddwy Lywodraeth cyn Penawdau'r Telerau. | Pob partner | 31/07/2019 | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| | | Materion yn codi gyda geiriad Penawdau'r Telerau – yn benodol gyda prosiectau gwedd 2 | 5 | 10 | 50 | (1) Y Bwrdd Uchelgais i drafod gofynion Penawdau'r Telerau gyda'r 2 Lywodraeth<br>(2) Rhannu a trafod drafft Penawdau'r Telerau gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais cgaph. | Pob partner | 31/07/2019 | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| HT 03 | Colli Personél sy'n meddu ar wybodaeth a chefndir | Trosiant staff a gweinidogion a cholli arbenigedd a pherthnasau gydag effaith ar amserlenni.<br><br>(Mae hyn yn berthnasol i'r rhanbarth a'r ddwy Lywodraeth) | 6 | 6 | 36 | (1) Cwblhau Penawdau'r Telerau erbyn 31/07/2019.<br>(2) Cynnal perthynas gref gyda'r ddwy Lywodraeth. | Y BWRDD UCHELGAIS / Ll Y DU / LlC | Parhaus | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| HT 04 | Cymeradwyo Achosion Busnes Amlinellol | Methu cytuno/llofnodi Achosion Busnes Amlinellol (gan Ll y DU a LlC). | 5 | 10 | 50 | (1) Cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol diwygiedig i'r ddwy Lywodraeth erbyn diwedd Mawrth 2019.<br>(2) Cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i drafod yr Achosion Busnes Amlinellol<br>(3) Y Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Cyflawni Busnes i | Y BWRDD UCHELGAIS / Ll Y DU / LlC | 30/04/2019 | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |

| Cyfeirnod | Teitl | Disgrifiad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | herio'r Achosion Busnes Amlinellol. | | | | |
| HT 05 | Oedi yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu | Methu cytuno ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twf.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu yn ddibynnol ar gyflawni ymagwedd ddeuol a llofnodi Penawdau'r Telerau (h.y. gwybod beth rydym yn bwriadu ei weithredu) | 5 | 5 | 25 | (1) Cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft i'r Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais yn ystod Mawrth 2019.<br>(2) Cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru erbyn diwedd Mawrth 2019.<br>(3) Adnabod ymagwedd ddeuol ar gyfer Penawdau'r Telerau. | Y BWRDD UCHELGAIS / Ll Y DU / LlC | 30/06/2019 | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| HT 06 | Cynlluniau Ochr a Phartneriaethau gyda LlC | Methu cytuno ar Gynlluniau Ochr a Phartneriaethau gyda LlC ar Drafnidiaeth, Tir ac Eiddo, Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru, Sgiliau a Chyflogaeth a Digidol. | 5 | 8 | 40 | (1) Sefydlu ffrydiau gwaith clir, negodi prosesau ac atebolrwydd ar gyfer cynlluniau ochr.<br>(2) Negodi adnoddau ac Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y ffrydiau gwaith partneriaeth cytunedig.<br>(3) Ymchwilio'n gynnar i'r dymuniad am gydweithio rhwng Cynghorau i gronni adnoddau i eistedd law yn llaw â thimau rhanbarthol LlC.<br>(4) Gwaith ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer pob partneriaeth rhwng Cynghorau a LlC. | Pob partner a LlC | 30/06/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| **LLYWODRAETHU** | | | | | | | | | | |
| GO 04 | Y partneriaid yn cymryd rhan lawn yn y Bwrdd | Partneriaid heb ymgysylltu'n ddigonol yng ngwaith y Bwrdd gan arwain at: -<br>• Presenoldeb annigonol yng nghyfarfodydd y Bwrdd gan un neu fwy o bartneriaid;<br>• Statws eilradd i bartneriaid nad ydynt yn Awdurdodau Lleol;<br>• Un neu fwy Awdurdod Lleol ddim yn ymgysylltu. | 1 | 8 | 8 | (1) Ymrwymiad gan holl aelodau'r Bwrdd. | Pob partner | Parhaus | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| GO 06 | Drafftio Cytundeb Llywodraethu 2 | Methu datblygu Cytundeb drafft yn amserol er mwyn i bartneriaid ei ystyried ac yn barod ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf terfynol. | 2 | 10 | 20 | (1) Capasiti cyfreithiol wedi'i gomisiynu (Pinsents) i arwain a chynghori ar ddrafftio'r Cytundeb Llywodraethu.<br>(2) Cynllun prosiect i gael ei ddatblygu ar gyfer GA2.<br>(3) Cynghorau a Phartneriaid i roi ystyriaeth lawn i GA2. | Penaethiaid Cyfreithiol | 31/10/2019 | Byw | Penaethiaid Cyfreithiol |
| GO 07 | Mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2 | Risg bod un neu fwy o bartneriaid yn peidio â mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 2 | 7 | 8 | 56 | (1) Sicrhau bod rhwydweithiau proffesiynol ynghlwm â chytuno i'r cynnwys (Penaethiaid Cyfreithiol, Prif Swyddogion Cyllid a'r Grwpiau Proffesiynol yr effeithir arnynt)<br>(2) Sylw gofalus a manwl gan y partneriaid i gydbwyso risgiau a rhwymedigaethau gyda'r buddion - ar y cyd ac yn unigol i bartneriaid - yng Nghytundeb Llywodraethu 2 a'r Cynllun Twf | Pob partner | 31/12/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |

| Cyfeirnod | Teitl | Disgrifiad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | terfynol ei hun<br>(3) Eirioli Cytundeb Llywodraethu 2 o fewn yr holl sefydliadau partner cyn gwneud y penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu gydag arweinyddiaeth gref a phenderfynol o fewn pob sefydliad partner<br>(4) Paratoi adroddiad templed cadarn wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol ac ariannol<br>(5) Parodrwydd i symud ymlaen â swyddogaethau ychwanegol neu sy'n cael eu gwadu ar sail raddol, h.y. dechrau GA2 ar sail fwy cyfyng os oes unrhyw anghydfod ynghylch ystod ehangach o swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i'r Cyd-bwyllgor neu fyw gyda mwy o faterion a gedwir yn ôl. | | | | |
| GO 08 | Sefydlu'r Is-bwyllgorau | Methu sefydlu'r is-bwyllgorau, i fodloni'r gofynion sydd wedi'u hamlinellu o fewn y Cytundeb Llywodraethu.<br><br>Methu datblygu Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgorau. | 6 | 8 | 48 | (1) Sefydlu'r Is-bwyllgorau yn ôl yr angen.<br>(2) Adran Gyfreithiol y Corff Atebol i gefnogi gyda drafftio cylch gorchwyl. | Pob partner<br><br>Yn Grŵp Gweithredol i ddechrau | 30/06/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| GO 09 | Trefniadau Craffu | Methu cytuno ar Drefniadau Craffu. | 6 | 5 | 25 | (1) Adroddiad am Drefniadau Craffu i'r Bwrdd Uchelgais.<br>(2) Trefniadau manwl i'w gwneud o fewn GA2. | Penaethiaid Cyfreithiol a'r Grŵp Gweithredol | 30/06/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| GO 10 | Cytuno ar y Cylch Gorchwyl gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes | Methu cytuno ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes. | 3 | 8 | 24 | (1) Adroddiad am Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Busnes i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ar 12/04/2019. | Swyddfa Rhaglen a'r Bwrdd Cyflawni Busnes | 31/03/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais |
| GO 11 | Proses Benodi gyhoeddus ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes | Methu penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes. | 6 | 8 | 48 | (1) Adroddiad am y broses benodi i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ar 12/04/2019. | Swyddfa Rhaglen | 31/10/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais a'r Swyddfa Rhaglen |
| **CYLLID** | | | | | | | | | | |
| FIN 01 | Cyfraniadau i'r gyllideb gan bartneriaid | Partneriaid yn methu cytuno ar gyfraniadau i'r gyllideb.<br><br>Cyfraniadau ariannol annigonol gan bartneriaid | 4 | 7 | 28 | (1) Mae cyfraniadau i'r gyllideb wedi'u hymgorffori o fewn GA1.<br>(2) Y Bwrdd Uchelgais i gytuno ar gyfraniadau cyllideb ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 15/03/2019. | Gwynedd a phob partner | 31/03/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol |
| FIN 02 | NNDR a chyfalafu | Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd wneud cynnig ar y cymorth ariannol y mae ei angen gan Lywodraeth | 3 | 6 | 20 | (1) Cyn-amod i hyn yw sgopio'r rhaglen a chyfrifo beth fydd ei chost<br>(2) Mae angen i'r rhanbarth gomisiynu darn o waith | Pob partner | 31/12/2019 | Heb agor eto | Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog |

| Cyfeirnod | Teitl | Disgrifiad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymru er mwyn gwneud i'r Cynllun Twf weithio. Mae'r risgiau fel a ganlyn: -<br>• Methu cytuno ar y gofynion ar gyfer NNDR a chyfalafu.<br>• Y rhanbarth yn methu adnabod / cytuno ar ymrwymiadau a phroffiliau prosiectau ddigon cynnar er mwyn cyflwyno ymateb amserol<br>• Y gofyn ddim yn cael ei dderbyn<br>Mae'r mater yn un effaith uchel oherwydd cyfyngiadau cyllidebau o fewn Awdurdodau Lleol a'r gofyn i ariannu'r Cynllun Twf (diddordeb a swyddfa rhaglen) yng nghyd-destun torri gwasanaethau lleol gyda grantiau i'r llywodraeth yn lleihau yn sgil y polisi llymder. | | | | i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda nifer o ofynion wedi'u dadlau'n dda yn cynnwys: -<br>• Cyfradd cadw NNDR,<br>• Cyfalafu cyflogau lle bo hynny'n bosib a<br>• Chymhorthdal llog.<br>(3) Gweithio gydag aelodau etholedig i'w paratoi nhw i wrthbwyso pwysau refeniw'r Cynllun Twf gyda chyfres o fuddion yn lleol ac i'r rhanbarth. | | | | Cyllid y corff atebol |
| FIN 03 | Gofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol | Methu adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol a'r partneriaid. Mae'r risgiau allweddol fel a ganlyn:<br>• Bod yn agored i gost taliadau llog<br>• Dosrannu costau rhwng cynghorau a phartneriaid | 3 | 8 | 24 | (1) Trefn y prosiectau.<br>(2) Parhau â gwaith da'r Prif Swyddogion Cyllid a chynnwys Prif Swyddogion Cyllid y partneriaid, gan gynhyrchu costau dangosol a mecanweithiau ariannu i'w hystyried gan y Bwrdd.<br>(3) Bydd gofynion benthyca yn amrywio yn ôl trefn a phroffil y prosiectau. | Swyddfa Rhaglen a'r Prif Swyddogion Cyllid | 31/12/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais a Phrif Swyddog Cyllid y corff atebol |
| FIN 04 | Cynllun Cyllidol | Methu cytuno ar y Cynllun Cyllidol | 6 | 10 | 60 | (1) Corff Atebol / Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo y Cynllun Ariannol. | Pob Partner | 30/11/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol |
| **Y SWYDDFA RHAGLEN** | | | | | | | | | | |
| PO 01 | Cyfarwyddwr Rhaglen | Methu recriwtio / penodi Cyfarwyddwr Rhaglen | 6 | 10 | 60 | (1) Cytuno ar y broses recriwtio.<br>(2) Bwrw ymlaen yn amserol. | Pob partner | 31/10/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol |
| PO 02 | Swyddfa Rhaglen | Methu cytuno a dylunio strwythur y Swyddfa Rhaglen.<br><br>Diffyg capasiti a gallu i gyflawni'r rhaglen. | 5 | 8 | 40 | (1) Adrodd i'r Bwrdd Uchelgais ar strwythur y Swyddfa Rhaglen yn ystod Ch3 2019 yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Rhaglen.<br>(2) Ymgymryd ag asesiad realistig o'r adnoddau a'r galluoedd sydd eu hangen. Cytuno ar ddyluniad a strwythur Swyddfa Rhaglen.<br>(3) Dyfeisio strategaethau ariannu sy'n lleihau faint o gostau y mae'r partneriaid yn agored iddynt o ran y swyddfa rhaglen (cyfalafu, ESF a phartneriaethau gyda LIC) | Pob partner | 30/09/2019 | Byw | Y Bwrdd Uchelgais a'r corff atebol |

| Cyfeirnod | Teitl | Disgrifiad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PO 03 | Cais Capasiti Sefydliadol ESF | Methu sicrhau arian ESF i gefnogi gwaith y Swyddfa Rhaglen. | 3 | 6 | 18 | (1) Cyflwyno OLT i WEFO yn amserol.<br>(2) Cyflwyno Cynllun Busnes Llawn i WEFO.<br>(3) Sicrhau a chytuno ar arian cyfatebol. | Corff Atebol / WEFO | 30/06/2019 | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| PO 04 | Rheolwyr Rhaglen | Methu penodi Rheolwyr Rhaglen. | 3 | 6 | 18 | (1) Cytuno ar broses recriwtio.<br>(2) Proses benodi gadarn a chynhwysol. | Pob partner | 30/09/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| **STRATEGAETHAU A PHROSIECTAU A GOMISIYNWYD** | | | | | | | | | | |
| CSP 01 | Y Broses Cymeradwyo Prosiectau | Methu cytuno ar broses i gymeradwyo prosiectau a fyddai wedyn yn arwain at weithdrefnau llofnodi hirfaith a chymhleth ar gyfer yr achosion busnes sy'n cynnwys sawl partner gan oedi buddsoddiad. | 4 | 7 | 28 | (1) Cytuno ar ymagwedd ddeuol ar gyfer y 14 prosiect.<br>(2) Cyflawni Modelau Busnes Pum Achos cryf.<br>(3) Sesiynau herio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.<br>(4) Proses gymeradwyo wedi'i dirprwyo (dirprwyo o'r Cynghorau a'r Partneriaid a'r llywodraethau i'r Bwrdd Uchelgais). | Cyfarwyddwr Arweiniol / Pob partner | 30/06/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| CSP 02 | Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru | Risg o ddyblygu gyda model rhanbartholi Llywodraeth Cymru a diffyg cefnogaeth Lywodraeth Cymru a'r Cynghorau o ganlyniad | 6 | 8 | 48 | (1) Dyrchafu i'r Gweinidog.<br>(2) Cyd-fenter i ennyn cefnogaeth o fewn Llywodraeth Cymru.<br>(3) Gweledigaeth ac atebolrwydd clir i'r Bwrdd ar gyfer trafodaethau negodi.<br>(4) Gweithio ar y cyd yn agos rhwng cynghorau er mwyn cytuno ar fodel sy'n derbyn cefnogaeth yr holl gynghorau. | Pob partner | 30/06/2019 | Byw | Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru |
| CSP 03 | Cynlluniau Ochr | Methu cytuno ar "gynlluniau ochr" gyda LlC neu MoUs.<br><br>Y risgiau a ganfyddir yn y ffrwd gwaith hon yw'r agenna rhanbartholi a'i berthynas â'r Swyddfa Rhaglen ynghyd â phryderon ynghylch amharodrwydd y gwasanaeth sifil i ymrwymo i bartneriaethau. | 5 | 8 | 40 | (1) Adroddiad am Gynlluniau Ochr i'r Bwrdd Uchelgais.<br>(2) Trafod a chytuno Cynlluniau Ochr gyda Llywodraeth Cymru.<br>(3) Cyflawni cofrestr risg a chynlluniau gweithredu ar gyfer prosiectau unigol. | Pob partner | 30/06/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| CSP 04 | Cyflawni Prosiectau | Methu cyflawni ar y prosiectau yn arwain at adolygiad ariannu - colli hygrededd | 2 | 10 | 20 | (1) Cytuno ar Benawdau'r Telerau.<br>(2) Ymrwymiad adnoddau i'r prosiectau.<br>(3) Swyddfa Rhaglen yn ei lle ac yn rheoli'r prosiectau. | Pob partner | 30/06/2019 | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| CSP 05 | Y sector preifat yn tynnu'n ôl | Risg o bartner sector preifat sylweddol yn tynnu'n ôl o brosiect o fewn y rhanbarth yn tanseilio strategaeth sylfaenol a/neu brosiectau'r rhanbarth. | 7 | 8 | 56 | (1) Rhestr o brosiectau.<br>(2) Y Bwrdd Uchelgais i fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o fewn y rhanbarth, fel y dangoswyd gydag atal Wylfa Newydd.<br>(3) Cyflawni'r Cynllun yn amserol fel bod y prosiectau'n parhau'n hyfyw dros oes ddatblygol y Cynllun. | Pob partner | Parhaus | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |
| **CYFREITHIOL A CHAFFAEL** | | | | | | | | | | |
| LP 01 | Cyfreithiol a Chaffael | Methu cytuno ar y manylion o fewn yr amserlen. | 5 | 8 | 40 | (1) Ansawdd y gwaith paratoi (Achosion Busnes Amlinellol). | Y BWRDD UCHELGAIS | Y BWRDD UCHELGAIS | Agored | Y BWRDD UCHELGAIS |

| Cyfeirnod | Teitl | Disgrifiad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | (2) Hyblygrwydd wrth negodi. | | | | |
| LP 02 | Caffael | Methu cytuno ar Strategaeth Caffael. | 4 | 7 | 28 | (1) Mabwysiadu strategaeth caffael y corff atebol. | Y Corff Atebol a'r Swyddfa Rhaglen | 31/10/2019 | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| **Y CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO** | | | | | | | | | | |
| MP 02 | Monitro a Gwerthuso | Methu datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso. | 5 | 5 | 28 | (1) Datblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso.<br>(2) Datblygu fframwaith perfformiad.<br>(3) Cydlynu'n ganolog. | Swyddfa Rhaglen | Y Grŵp Gweithredol a'r Swyddfa Rhaglen | Heb agor eto | Y BWRDD UCHELGAIS |
| **YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU Â RHANDDEILIAID** | | | | | | | | | | |
| SEC 01 | Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid | Methu cydymffurfio â'r protocol cyfathrebu.<br><br>Difrod i enw da partneriaid a phrosiectau ynghyd â'r Cynllun yn gyffredinol. | 5 | 5 | 25 | (1) Cynllun a Phrotocol Cyfathrebu yn eu lle.<br>(2) Cynllun a Phrotocol Cyfathrebu wedi'u rhannu gyda phawb sydd ynghlwm.<br>(3) Penodi Rheolwr PR fel Cyswllt PR canolog. | Pob partner | Parhaus | Byw | Y BWRDD UCHELGAIS |

## RISGIAU SYDD WEDI CAU

| Cyf. | Teitl | Disgriflad o'r Risg | A<br>Tebygolrwydd (0-10) | B<br>Effaith (0-10) | Cyfanswm Gwerth Risg (A x B) | Lliniaru | Gweithred gyda | Gweithred gan | Statws | Perchnogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RISGIAU SYDD WEDI CAU** | | | | | | | | | | |
| GO 01 | Cytundeb Llywodraethu 1 | Risg bod un neu fwy o bartneriaid yn peidio â mabwysiadu Cytundeb Llywodraethu 1 | 0 | 10 | 10 | (1) Eirioli Cytundeb Llywodraethu 1 o fewn yr holl sefydliadau partner cyn gwneud y penderfyniad ffurfiol i fabwysiadu<br>(2) arweinyddiaeth gref a phenderfynol o fewn pob sefydliad partner<br>(3) paratoi adroddiad templed cadarn wedi'i gefnogi gan gyngor cyfreithiol ac ariannol | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | Penaethiaid Cyfreithiol |
| MP 01 | Cofrestr Risg | Methu datblygu a diweddaru cofrestr risg | 4 | 7 | 28 | (1) Datblygu cofrestr risg ar gyfer gwella dros amser ac adolygu a diweddaru'r asesiad risg yn rheolaidd | Y Corff Atebol, y Grŵp Gweithredol a'r Swyddfa Rhaglen | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | Y BWRDD UCHELGAIS |
| GO 03 | Trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor | Methu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor ffurfiol, gydag adnoddau llawn, i fodloni gofynion Cytundeb Llywodraethu 1 ac yn barod ar gyfer cam cyflawni'r Cynllun Twf terfynol. Ariannu (ar gyfer y corff atebol a'r swyddfa rhaglen) yw'r prif risg i'r trosglwyddiad hwn. | 1 | 10 | 10 | (1) Pob parti yn llofnodi ac yn selio GA1<br>(2) Cytundeb wedi'i gynllunio i'r trosglwyddiad ddigwydd yn y Bwrdd ar 01.02.19<br>(1) Paratoi ar gyfer y trosglwyddo wedi'i gytuno gyda'r Awdurdod Lletya<br>(2) Adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais ar 1 Chwefror i weithredu'r trosglwyddiad<br>(2) Ariannu ar gyfer GA1 i'w gytuno ar gyfer 2019/20 | Prif Weithredwr Arweiniol a Chyngor Gwynedd | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | Y BWRDD UCHELGAIS |
| GO 05 | Adnabod a chytuno ar raglen waith chwe mis ar gyfer y Cyd-bwyllgor yn unol â GA1. | Y risg dan sylw yw na fydd y rhaglen waith wedi'i chytuno na'i datblygu'n ddigonol o'r amlinell er mwyn cael ei chyflwyno i gyfarfod y bwrdd ar 1 Chwefror. Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd brynu i mewn i'r rhaglen waith gan y bydd yn gyrru costau'r rhaglen ac yn siapio monitro sut mae uchelgeisiau'r Bwrdd yn cael eu cyflawni. | 3 | 9 | 27 | (1) Caiff y rhaglen waith ei datblygu ar y cyd gan y Swydd Rhaglen i'w llofnodi gan y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd.<br>(3) Felly, byddai symud i benodi/rhoi adnoddau i Gyfarwyddwr Rhaglen a swyddfa rhaglen yn lleihau'r risg o raglen waith annigonol sydd heb ei hystyried yn iawn na fyddai'n ennyn cefnogaeth y Bwrdd. | Yn Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | Y BWRDD UCHELGAIS |
| HT 02 | Sefydlu sesiynau herio gyda Gweinidogion | Anallu neu oedi wrth sefydlu sesiynau herio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. | 6 | 8 | 48 | (1) Cyflwyno Achosion Busnes Amlinellol a'r Cynllun Gweithredu i'r ddwy Lywodraeth.<br>(2) Sefydlu sesiynau herio yn gynnar fel bod dyddiadau yn y dyddiaduron yn barod. | Cyfarwyddwr Arweiniol / Ll y DU / LlC | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | Y BWRDD UCHELGAIS |
| GO 02 | Risg o fethu gwneud Penodiad y Corff Atebol | Diffyg cytundeb am Gorff Atebol a ddewisir ar gyfer GA2. | 2 | 10 | 20 | (3) Parhau gyda Gwynedd fel Corff Atebol dan Gytundeb Llywodraethu 1.<br>(2) Parhau gyda thrafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i gymryd y rôl corff atebol. | Prif Weithredwr Arweiniol a Chyngor Gwynedd | **Wedi Cau** | **Wedi Cau** | Y BWRDD UCHELGAIS |

## Meini Prawf yr Asesiad

| POSIBILRWYDD (A) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uchel | 10 | 10 | 20 | 30 | 40 | 50 | 60 | 70 | 80 | 90 | 100 |
| | | 9 | 9 | 18 | 27 | 36 | 45 | 54 | 63 | 72 | 91 | 90 |
| | | 8 | 8 | 16 | 24 | 32 | 40 | 48 | 56 | 64 | 72 | 80 |
| | | 7 | 7 | 14 | 21 | 28 | 35 | 42 | 49 | 56 | 63 | 70 |
| | | 6 | 6 | 12 | 18 | 24 | 30 | 36 | 42 | 48 | 54 | 60 |
| | Posib | 5 | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 | 30 | 35 | 40 | 45 | 50 |
| | | 4 | 4 | 8 | 12 | 15 | 20 | 24 | 28 | 32 | 36 | 40 |
| | | 3 | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 | 20 | 21 | 24 | 27 | 30 |
| | | 2 | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 | 15 | 14 | 16 | 18 | 20 |
| | Posibilrwydd Prin | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| | | | Isel iawn | | | Canolig | | | | | Uchel iawn | |
| | | | EFFAITH (B) | | | | | | | | | |

## Allwedd

| | |
|---|---|
| **HT** | Penawdau'r Telerau |
| **GO** | Llywodraethu |
| **FIN** | Cyllid |
| **PO** | Swyddfa Rhaglen |
| **CSP** | Strategaethau a Phrosiectau a Gomisiynwyd |
| **LP** | Cyfreithiol a Chaffael |
| **MP** | Monitro a Gwerthuso |
| **SEC** | Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid |

## Rheoli fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Manylion y newidiadau neu sylwadau |
|---|---|---|
| F1 | 11/01/2019 | Drafft wedi'i ddatblygu |
| F2 | 23/01/2019 | Drafft wedi'i ddiwygio gan weithgor bach |
| F3 | 28/01/2019 | Drafft wedi'i ddiwygio gan Stephen Jones i'w gyflwyno i Grŵp Gweithredol y Bwrdd Uchelgais am sylwadau. |
| F4 | 29/01/2019 | Diwygiadau ac Ailfformatio gan Nia Medi Williams |
| F5 | | |
| F6 | 30/01/2019 | Diwygiadau gan Stephen Jones (ar adborth gan y Prif Weithredwr Arweiniol) |
| F7 | 02/04/2019 | Diwygiadau yn dilyn cyfarfod y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 29/03/2019. |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

*Gogledd Cymru, economi'r dyfodol: **Blaengar, Gwydn, Cysylltiedig,***
***lle bo ffocws y twf economaidd ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel***

# Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cyfarfod y Grŵp Cyflawni Busnes (y Grŵp) 15 Gorffennaf 2019

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

| | | |
|---|---|---|
| Askar Sheibani (Cadeirydd Dros Dro) | Comtek | AS |
| Geoff Ellison | Dragon Drilling | GE |
| Mark Evans | Pebble Hill Property | ME |
| Huw Jones | Jones Brothers | HJ |
| Steve Lyons | AirBus | SL |
| Steve Thomas | AirBus | STh |
| Chris Owen | Alpine Travel | CO |
| Stephen Wade | Legat Owen | SW |

**Swyddogion:**

| | | |
|---|---|---|
| Iwan Trefor Jones | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd | ITJ |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Andrew Bowden | Cartrefi Conwy | AB |
| Nick Davies | Ipsen | ND |
| Liz McGuiness | Llangollen Railway | LMc |
| Menna Jones | Antur Waunfawr | MJ |
| Sara Overson | Toyota | SO |
| Capt Wyn Parry | Stena | WP |
| Sean Taylor | Zip World | ST |
| Huw Watkins | BIC Innovation | HW |
| Mary Wimbury | Fforwm Gofal Cymru | MW |

**Clerc:**

| | | |
|---|---|---|
| Gerry Beer | Prifysgol Glyndŵr | GB |

**Yn mynychu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng Dyfrig Siencyn | Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais | DS |
| Jane Richardson | Cynrychiolydd Grŵp Gweithredol y Bwrdd Uchelgais | JR |

## 1. CROESO

Croesawodd AS yr Aelodau, gan nodi'r ymddiheuriadau a diolchodd i DS a JR am fynychu'r cyfarfod. Cyflwynodd bawb ei hun.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF - 18 MEHEFIN 2019 A MATERION YN CODI

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

## 3. YMATEB I LYTHYR Y BWRDD CYFLAWNI BUSNES I AELODAU'R BWRDD UCHELGAIS

Gwahoddodd AS DS i ymateb yn ffurfiol i'r llythyr a anfonwyd ato fel Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais a nododd y byddai'r Aelodau'n cael eu gwahodd i godi cwestiynau hefyd unwaith y byddai DS wedi ymateb. Ategodd AS fod yr Aelodau'n bryderus nad oedd eu hamser a'u hegni'n gwirfoddoli ar y Bwrdd Cyflawni Busnes yn ychwanegu gwerth oherwydd teimlwyd nad oedd eu cyfraniad i unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau wedi'u hystyried o gwbl.

Ymddiheurodd DS am beidio ag ymateb yn ffurfiol wedi derbyn y llythyr, ond pwysleisiodd bwysigrwydd y Bwrdd Cyflawni Busnes wrth rannu a gwireddu Gweledigaeth Economaidd y Gogledd a bod y Grŵp yn hanfodol i gyflawni'r Cais Twf yn llwyddiannus. Ystyriwyd y Bwrdd Uchelgais yn gorff cryf wrth iddo weithio mewn partneriaeth ledled y chwe awdurdod lleol, y sector AB ac AU a'r sector preifat ac roedd hyn yn hanfodol i lwyddiant Gweledigaeth Economaidd y Gogledd.

### 3.1 Siart Perthynas Corff Ymgynghorol / Sector ar gyfer y Gogledd

Er nad oedd siart perthynas corff ymgynghorol / sector wedi ei wneud o hyd, sicrhaodd DS yr Aelodau nad oedd y cysyniad o Grŵp Cyfeiriad Sector Preifat, wedi'i sefydlu gan Weinidogion, wedi'i adrodd yn ffurfiol. Fodd bynnag, roedd y Gweinidogion wedi derbyn adborth na fyddai Grŵp o'r fath yn angenrheidiol ac ymddengys eu bod wedi derbyn yr adborth yn gadarnhaol.

### 3.2 Ystadegau Sgiliau

Roedd crynodeb byr o'r ystadegau a fyddai'n arddangos lle'r oedd y sector preifat yn meddwl bod bylchau sgiliau yn bodoli, yn parhau'n gais oherwydd credwyd y byddai'n declyn defnyddiol i Aelodau.

### 3.3 Cynnig Cefnogaeth Busnes Ranbarthol

Ategodd yr Aelodau'r angen i'r cynnig Cefnogaeth Busnes fod yn fwy uchelgeisiol, ac nid yn system a oedd wedi'i orfodi arnynt. Rhoddodd JR y cefndir ac adroddodd fod cynnig wedi'i gyflwyno yn rhan o geisiadau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn wreiddiol, fodd bynnag, gan nad oedd fframwaith y Cynllun Twf yn caniatáu ar gyfer prosiectau refeniw, tynnwyd y cynnig gwreiddiol yn ôl a chytunwyd y byddai'r ddarpariaeth amgen yn cael ei chyflwyno. Gan nad oedd mandad gwleidyddol i'r cynnig, y nod oedd darparu isadeiledd cefnogaeth a fyddai'n cael ei frandio fel 'siop un stop' ond byddai'r strwythur y tu ôl iddo yn golygu defnyddio arbenigedd unigol ledled y rhanbarth i gefnogi busnesau, lle bynnag y'u lleolir. Cytunodd JR y byddai, yn ddelfrydol, wedi bod yn well darparu rhywbeth tebyg i'r hyn oedd y WDA, ond heb y gefnogaeth wleidyddol, roedd y cynnig hwn yn ffordd o geisio cyflawni'r un canlyniad.

Roedd y chwe Awdurdod Addysg Lleol a Busnes Cymru (Llywodraeth Cymru) yn trafod sut allai'r Gefnogaeth Busnes Ranbarthol weithredu ac roedd bwriad cyflwyno cynnig i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Medi. Y syniad oedd defnyddio system CRM ganolog i ddal y wybodaeth gyda KPIs ar y cyd.

Ategodd yr aelodau eu bod yn gefnogol mewn egwyddor, fodd bynnag, fe wnaethant bwysleisio nad oedd y cynnig yn mynd ddigon pell i fodloni anghenion y sector preifat. Anogodd JR yr Aelodau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Cefnogi Busnes Rhanbarthol i arddangos i Lywodraeth Cymru bod angen gwirioneddol am gorff o'r fath.

### 3.4 Rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes a'r Broses Herio

Adroddodd AS fod canfyddiad ehangach bod y Grŵp wedi'i sefydlu fel 'ymarferiad i amenio penderfyniadau' yn unig er mwyn bodloni Gweinidogion bod y Bwrdd Uchelgais wedi cymryd sylw o'u gofynion. Roedd angen i'r Grŵp gael tystiolaeth nad hyn oedd yr achos a bod ei rôl yn cyfrannu at ddatblygu'r rhanbarth a bod ei farn a chofnodion ei gyfarfodydd wedi'u hystyried yng nghyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais.

Adroddodd DS mai ffocws y Bwrdd Uchelgais oedd bwrw ymlaen â chais Cynllun Twf Gogledd Cymru a chyrraedd Penawdau'r Telerau ac felly nid oedd y trafodaethau a'r cyfeiriad ehangach wedi cael y ffocws y gallent fod wedi cael. Fodd bynnag, wrth i'r prosiectau symud ymlaen i'r cam nesaf, byddai gan y Bwrdd Uchelgais le i ehangu ei faes trafodaeth i grisialu trafodaeth ehangach prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Sicrhaodd ITJ yr Aelodau bod yr adborth a roddodd y Grŵp hwn ar bob un o'r Achosion Busnes Amlinellol, a gyflwynwyd iddo mewn cyfarfod cynharach, wedi'i ystyried wrth eu dylunio ymhellach. Yn ogystal, roedd Cadeirydd blaenorol y Grŵp wedi adrodd sylwadau yng Nghyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais, gan sicrhau bod barn y Grŵp wedi ei chyfleu.

Yn nhermau'r sesiynau her nad oedd Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes wedi cael cyfle i gyfrannu atynt, adroddwyd eu bod wedi'u sefydlu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru heb fawr ddim ymgynghori gyda'r Bwrdd Uchelgais.

Roedd yr aelodau'n parhau heb eu perswadio gan y sicrwydd a roddwyd ac roeddent yn parhau i fod o'r farn nad oedd cysylltiad rhwng y ddau Fwrdd. Ystyriodd yr aelodau sut roedd Byrddau Menter yn gweithredu a sut roeddent yn cyfathrebu'n uniongyrchol â Gweinidogion ac ymateb yn cael ei adrodd yn ôl ar sut fyddai polisi yn cael ei ffurfio yn seiliedig ar safbwynt y sector preifat. Roedd hyn yn arwydd o'r ffaith fod y Byrddau Menter yn effeithiol ac yn cael effaith ar ddatblygiad y Rhanbarth, sef rhywbeth nad oedd yr Aelodau'n teimlo oedd yn wir ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Derbyniodd DS y sylwadau a wnaed a chytunodd bod angen iddynt gael eu trafod yn y Bwrdd Uchelgais i sicrhau bod perthynas yn cael ei ffurfio rhwng y ddau Fwrdd.

Adroddodd JR nad oedd canllawiau na strwythurau ffurfiol i'w dilyn wrth ffurfio'r Cynllun Twf a'i strwythurau cefnogi a bod angen cael gwell diffiniad o rolau a chyfrifoldebau er mwyn rhoi eglurder a dealltwriaeth glir pawb sydd ynghlwm. Nodwyd, fodd bynnag, unwaith y byddai Penawdau'r Telerau wedi'u llofnodi a bod y prosiectau yn symud i'r cam ariannu, gallai aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes gyfrannu at bob prosiect, yn dibynnu ar eu harbenigeddau, i helpu i siapio ac arwain y prosiectau.

Adroddodd DS ei bod wedi profi'n anodd i'r Bwrdd Uchelgais ddangos ei awdurdod i gynllunio a chreu strwythurau'n lleol a bod hyn yn parhau'n rhan o drefn lywodraethu Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, awgrymwyd y gallai'r Bwrdd Cyflawni Busnes brofi i fod â rhagor o ddylanwad fel llais y sector preifat a gwthio am ragor o ranbartholi a'r cyllid cysylltiedig. Cytunodd ITJ ac ategodd rôl y Grŵp fel ffrind beirniadol, sydd yn ei le i gynghori a herio'r Bwrdd Uchelgais gan sicrhau bod y negeseuon allweddol yn cael eu hadrodd, bod y rhwystrau'n cael eu cyfathrebu a bod ganddo'r cyfle i ehangu ei rôl i lobïo dros y rhanbarth.

**3.5 Canlyniad y Drafodaeth**

Cytunwyd bod angen rhagor o gysylltiad rhwng y ddau gorff ac, felly, cytunwyd ar yr isod fel ffordd ymlaen:

1. Y byddai cofnodion y Bwrdd Cyflawni Busnes yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ym mhob cyfarfod.

2. Y byddai gan Gadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes, neu gynrychiolydd, gyfle i siarad am y cofnodion ym mhob cyfarfod.
3. Y byddai'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn dod ynghyd ddwywaith y flwyddyn i ddarparu dull adrodd mwy ffurfiol.
4. Y byddai dau o'r prosiectau yng Ngham Un yn cael eu cyflwyno ym mhob cyfarfod dros gyfnod o dri mis er mwyn cael eu craffu a'u herio: Medi i Ragfyr 2019.
5. Yna, y byddai'r prosiectau yng Ngham Dau yn cael eu craffu ym mhob cyfarfod: Ionawr i Fawrth 2020.
6. Y byddai cais i Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Busnes gyfrannu at is-grwpiau'r Bwrdd Uchelgais wrth ddatblygu'r Modelau Busnes Pum Achos yn seiliedig ar arbenigeddau unigol.
7. Bod y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gwahodd Gweinidogion i'w cyfarfodydd er mwyn ymgysylltu mewn trafodaeth uniongyrchol.

**4. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD - BWRDD UCHELGAIS A CHYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU**

Adroddwyd bod y ddwy Lywodraeth yn awyddus i lofnodi Penawdau'r Telerau a rhagwelwyd y byddai hyn yn digwydd erbyn diwedd mis Gorffennaf pan fyddai'r arian ar gael ar gyfer y prosiectau o fewn Penawdau'r Telerau. Yna, byddai Modelau Busnes Pum Achos yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r prosiectau. Byddai cyfarfod yn Llundain, a drefnwyd ar 17 Gorffennaf 2019, yn gosod yr amodau ac yn amlygu amserlen realistig i ddwyn y prosiectau ymlaen.

Pwysleisiodd ITJ nad oedd yr Achosion Busnes Amlinellol a fyddai'n cael eu datblygu yn Fodelau Busnes Pum Achos yn rhagnodol a bod adborth gan y Bwrdd Cyflawni Busnes yn parhau'n rhan hanfodol o gam nesaf y datblygiad fel arbenigwyr yn eu maes. Cytunwyd y darperir crynodeb o Geisiadau'r Cynllun Twf i'r Aelodau i'w hatgoffa nhw o'r prosiectau a oedd dan ystyriaeth.

Y cam cyntaf o brosiectau a fyddai'n dechrau wrth ddatblygu'r Modelau Busnes Pum Achos unwaith y byddai Penawdau'r Telerau wedi'u llofnodi oedd:

- Tir ac Eiddo
- Cysylltedd Digidol
- Porth Caergybi
- Trawsfynydd
- Ynni Blaengar
- Canolfan Ragoriaeth Niwclear

Gallai gwaith ar ddatblygu'r Modelau Busnes Pum Achos ar gyfer yr ail gam o brosiectau barhau, ond ni fyddent yn cael eu symud ymlaen hyd nes mis Hydref neu fis Tachwedd 2019.

Cyfarwyddwr y Swyddfa Rhaglen newydd fyddai'n cymryd cyfrifoldeb dros yrru datblygiad y prosiectau.

Gwnaeth aelodau sylwadau bod angen rhagor o dryloywder wrth wneud penderfyniadau gan nad oedd unrhyw gyfraniad gan y Grŵp wedi bod yn nhermau camau'r broses nac unrhyw dystiolaeth bod y sylwadau a oedd wedi'u bwydo'n ôl wedi cael eu hystyried.

**5. CYSYLLTEDD DIGIDOL**

Atgoffodd AS yr aelodau am y Grŵp Llywio Cysylltedd Digidol a oedd wedi'i ffurfio o unigolion blaengar yn eu maes. Er hynny, nodwyd bod oedi wedi bod wrth ffurfio'r grŵp gan nad oedd y Bwrdd Uchelgais wedi cymeradwyo ei safle. Cytunwyd, fodd bynnag, y gallai'r Grŵp Llywio

fwydo i mewn i Is-grŵp Cysylltedd Digidol y Bwrdd Uchelgais gan y byddai eu harbenigedd yn hanfodol i ddatblygu'r Model Busnes Pum Achos.

**6. PROSIECTAU CYNLLUN TWF PRIFYSGOL BANGOR A PHRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM - CYFRANIAD ECONOMI RHANBARTHOL**

Cynigiodd AS y dylid gwahodd Is-ganghellor Prifysgol Bangor ac Is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle iddynt amlinellu'r prosiectau ar y bwrdd, sut roeddent wedi cyfrannu at yr economi rhanbarthol a rhoi cyfle i drafod y cynigion. Atgoffodd JR yr Aelodau y byddai pob un o'r prosiectau a gyflwynwyd ar gamau datblygu gwahanol: Prifysgol Bangor yng Ngham Un ar gyfer y prosiect Niwclear a Phrifysgol Glyndŵr yng Ngham Dau ar gyfer y Prosiect Opteg a Pheirianneg.

**7. BWRDD CYFLAWNI BUSNES GOGLEDD CYMRU - CYNNYDD AR BENODI CADEIRYDD**

Adroddodd ITJ y byddai swydd Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn cael ei hysbysebu ddiwedd mis Gorffennaf gyda'r bwriad o benodi tua chanol mis Medi. Y Bwrdd Uchelgais fyddai'n gwneud y penodiad.

**8. UNRHYW FATER ARALL**

Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Medi 2019 am 8.30am ac y byddai GB a JR yn trafod yr amserlen o brosiectau i'w cyflwyno i'r tri chyfarfod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019 y tu allan i'r cyfarfod.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**SWYDD DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Cadeirydd - Bwrdd Cyflawni Busnes |
| **Cyflog :** | Bydd y swydd yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel penodiadau cyhoeddus yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r rôl |
| **Rhif Gwerthuso:** | - |
| **Atebol i:** | Amherthnasol |
| **Lleoliad y swydd:** | Hyblyg. Dim lleoliad sefydlog |

**Cadeirydd y Bwrdd - Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

- Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am:
  - Arwain Bwrdd effeithiol a chredadwy;
  - Sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau;
  - Datblygu rôl a rhaglen waith hir-dymor y Bwrdd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol;
  - Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd mewn arddull bwrpasol, cynhwysol, effeithiol ac effeithlon o ran amser
  - Cyfathrebu a chynrychioli gwaith, barn ac argymhellion y Bwrdd i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
  - Gweithredu fel lladmerydd dros y gymuned fusnes yn y Gogledd; a
  - Gweithredu fel lladmerydd dros Ranbarth y Gogledd.
- Dylai'r Cadeirydd feddu ar y cefndir a'r profiad a ganlyn:
  - Profiad helaeth o weithio yn y sector preifat;
  - Profiad helaeth mewn rôl arweinyddiaeth uwch;
  - Gwybodaeth dda o Ranbarth y Gogledd; a
  - Rhwydwaith eang o gysylltiadau yn y sector cyhoeddus, preifat ac yn y llywodraethau.

**Cyfrifoldebau Allweddol y Bwrdd Cyflawni Busnes:**

- Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gyfrifol am:
  - Adolygu a siapio'r Weledigaeth Twf ar gyfer y Gogledd;
  - Herio ac adolygu'r portffolio o brosiectau a gynigir o fewn y Cynllun Twf ac ystyried a herio'r Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau unigol;
  - Canolbwyntio ar gyflawni prosiectau a gomisiynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a gataleiddir gan y Cynllun Twf, a'u harwain;
  - Darparu rôl eirioli, gan hyrwyddo'r rhanbarth fel prif leoliad ar gyfer buddsoddwyr ac ymwelwyr a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu gwerth ac ansawdd mewnfuddsoddi;
  - Rhoi cyngor ar ymyrraeth arfaethedig gan randdeiliaid allweddol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.
- Bydd gan y Bwrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth fanteisio i'r eithaf ar effaith y Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth, gan sicrhau buddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol o'r sector preifat ar gyfer y Cynllun.
- Bydd y Bwrdd yn gweithio'n agos ac mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**Rôl a Chylch Gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes:**

- Bydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn gweithredu fel llais busnes a chyflogwyr yn y rhanbarth - gan weithio'n agos gyda sefydliadau megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Prif rôl y Bwrdd fydd cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth.
- Bydd gan y Bwrdd rôl allweddol i gynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Bydd y Bwrdd yn amlygu'r rhwystrau i dwf, ynghyd â dwyn ymlaen syniadau a chynigion. Disgwylir i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sefydlu ffyrdd i gyflawni'r cynigion hyn.
- Bydd y Bwrdd yn rhan ganolog o drefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf ac mae ganddo rôl ddeublyg bwysig:

- Sicrhau bod llais a dymuniadau busnesau yn siapio ac yn dylanwadu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a phecyn a chyflawniad y Cynllun Twf;
- Sicrhau y gall busnesau gael mynediad i'r cyfleoedd a gataleiddir gan ddatblygu'r Cynllun Twf, a'u harwain.

- Bydd y Bwrdd wedi'i ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Twf, a hyrwyddo buddsoddiad anuniongyrchol gan gwmnïau, mentrau a busnesau.
- Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 9 a 12 aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ac arbenigwyr sector o fusnesau allweddol o'r sectorau economaidd twf a sylfaenol ledled y rhanbarth. Mae disgwyl i Aelodau'r Bwrdd gynnwys swyddogion uwch sy'n gwneud penderfyniadau o sefydliadau a gynrychiolir.
- Bydd rhaglen waith y Bwrdd (a fydd wedi'i hamlinellu mewn cynllun busnes blynyddol) yn arddangos yn glir y cyfleoedd i'r sector preifat a ddaw yn sgil cyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Cynllun Twf. Caiff y cynllun busnes blynyddol a'r cynigion a gyflwynir gan y Bwrdd eu hystyried yn ffurfiol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn eu hymgorffori o fewn ei raglen waith.
- Bydd y Bwrdd yn rhoi llais i'r gymuned fusnes fel mewnbwn i'r Cynllun Twf.
- Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod dewisiadau buddsoddi mewn twf yn cael eu hysbysu a'u siapio gan fusnesau i fusnesau.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn Ymgynghorydd i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac, mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, bydd ganddo rôl allweddol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chysylltiadau allweddol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd o fewn llywodraethiant y Cynllun Twf a'i gyd-berthynas gyda'r Cyd-bwyllgor eu cwmpasu yng Nghytundeb Llywodraethu 2. Rhaid i'r Bwrdd fod yn hyblyg i newid ei gyfansoddiad a'i rôl fel y gwêl yn dda er mwyn bod mor annibynnol â phosib. Caiff cyfansoddiad a rôl y Bwrdd ac unrhyw ddiwygiadau eu cytuno gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ystyried yn llawn ac yn derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Caiff unrhyw argymhellion ffurfiol a wneir gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru eu cyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig a gaiff ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd a chaiff yr ymateb a'r rhesymau eu cofnodi a'u cyfathrebu.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**

- Mae rôl y Cadeirydd yn un anweithredol.
- Caiff y Cadeirydd ei benodi ar sail tymor penodol o ddwy flynedd, gydag uchafswm nifer y tymhorau wedi'i gyfyngu i ddau.
- Tybir y byddai'r ymrwymiad amser, er yn hyblyg, yn un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, ond bydd lefel yr ymrwymiad yn amrywio dipyn ar draws y tymor.
- Bydd y swydd yn derbyn cydnabyddiaeth ar lefel penodiadau cyhoeddus yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r rôl.
- Darperir cefnogaeth strategol, ymchwil, polisi a chyfryngau i'r Cadeirydd a'r Bwrdd Cyflawni Busnes gan y Swyddfa Rhaglen (unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).
- Bydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru roi caniatâd i benodiad y Cadeirydd. Caiff y broses ei goruchwylio gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn ddarostyngedig i ganiatâd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, caiff y Cadeirydd ei benodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Caiff y Cadeirydd ei benodi drwy broses agored.
- Disgwylir i'r Cadeirydd lynu wrth y safonau sy'n ddisgwyliedig gan y sawl sydd mewn swyddi anweithredol cyhoeddus uwch.

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref DLS/ITJ/ls
Ein cyf/Our ref KS/06572/19

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

IwanJ@gwynedd.llyw.cymru

24 Mehefin 2019

Annwyl Dyfrig,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Mai am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mai. Yn gyntaf, gaf i eich llongyfarch eto am eich penodi yn Gadeirydd y Bwrdd.

Gallaf gadarnhau mai 27 Mehefin fydd y dyddiad ar gyfer sesiynau her y Sector Preifat a Llywodraeth y DU/Gweinidogion Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru.

Nid oes amheuaeth bod Penawdau'r Telerau erbyn diwedd Gorffennaf yn amserlen heriol ond rydym wedi ymrwymo i gydweithio â chi, Llywodraeth y DU a'r bwrdd i gyrraedd y garreg filltir bwysig hon ar amser. Byddai'n bleser gennyf fod yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd a bydd fy swyddfa yn cadarnhau a fyddaf ar gael ar gyfer cyfarfod mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

Rwy'n disgwyl i HS2 gyflawni manteision gwirioneddol i Ogledd Cymru, a'r nod yw elwa i'r eithaf ar y rhain er mwyn sicrhau bod teithwyr yng Nghymru'n profi newid sylweddol o ran amlder gwasanaethau, safon gwasanaethau ac amseroedd teithio.

Mae gorsaf Crewe yn chwarae rhan amlwg o fewn rhwydwaith rheilffordd y DU ac mae'n gyfnewidfa bwysig ar gyfer teithwyr o bob rhan o Gymru. Bydd yr orsaf hon yn bwysicach nag erioed yn dilyn cyflwyno gwasanaethau HS2 yn 2027. Mae tair llinell brysur eisoes yn croesi yn Crewe, a golyga'r ffaith y gall wasanaethu dalgylch eang ei bod mewn lleoliad perffaith i gynnig cyfnewidfa allweddol rhwng gwasanaethau cyflym iawn a gwasanaethau presennol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau bod Cymru'n elwa i'r eithaf ar HS2 bydd yn rhaid creu canolfan yn Crewe mewn modd a fydd yn galluogi pobl sy'n teithio i Gymru ac oddi yno i ddefnyddio rhwydwaith HS2 yn gyflym ac yn ddidrafferth. Bydd yn rhaid i'r ganolfan, man lleiaf, gael ei gwasanaethu gan drenau rheolaidd a chyflym iawn, bydd yn rhaid sicrhau cysylltedd agos a didrafferth rhwng gwasanaethau cyflym iawn a rhai clasurol a bydd yn rhaid sicrhau capasiti digonol ar gyfer gwasanaethau trên presennol a gwasanaethau clasurol sydd ar y gweill o fewn safle'r brif orsaf.

Yn olaf fe gofiwch o'n cyfarfod ar 22 Mai, y bydd Gwen Roberts, Prif Swyddog Rhanbarthol Gogledd Cymru yn trefnu i gyfarfod â chi ar wahân i drafod nifer o faterion gan gynnwys:

- Strategaeth ryngwladol newydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Gogledd Cymru;
- Uwchgynhadledd ynni posibl ar gyfer y rhanbarth;
- Cyflwyno swyddogion i Gyfarwyddwr Rhaglen newydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Yn Gywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Kevin Foster MP/AS
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

**T**: 020 7270 0575
**E**: Correspondence@ukgovwales.gov.uk

26 Mehefin 2019

Annwyl Gynghorydd Siencyn,

**Cynllun Twf Gogledd Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mai 2019, pan wnaethoch godi nifer o bwyntiau ynghylch Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r canolbwynt HS2 arfaethedig yn Crewe. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gwneud trefniadau i gynnal sesiwn her gyda'r sector preifat a sesiwn her ar y cyd rhwng y llywodraethau yn y Gogledd yfory. Edrych ymlaen at ein trafodaethau, a gobeithiaf y bydd y ddwy sesiwn yn braenaru'r tir tuag at gytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Fe wnaethoch godi rhai pwyntiau ynghylch sut allai HS2 fod o fudd i'r Gogledd. Rydw i a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi gweledigaeth gorsaf Canolbwynt Crewe a allai hwyluso gwell gwasanaeth trên HS2 a gwella perfformiad, hyblygrwydd a gwytnwch yn yr orsaf. Gwneir penderfyniadau ynghylch amserlen ar gyfer gwasanaeth HS2 yn y dyfodol pan fydd Partneriaeth Arfordir y Gorllewin yn ei lle. Yn y cyfamser, yn ein cynlluniau gwasanaeth dangosol (a ddefnyddir ar gyfer modelu i hysbysu'r achos busnes ac asesiadau capasiti) rydym yn tybio y bydd y gwasanaeth uniongyrchol bob awr o Lundain i Gaer/Gogledd Cymru yn parhau i weithredu patrwm amseroedd teithiau, amlder ac arhosfannau tebyg i'r hyn a geir heddiw.

Ym mis Mai 2019, clustnododd yr Adran Drafnidiaeth £9.5m i Network Rail i barhau â gwaith dylunio manwl ar gyfer cynllun gorsaf a fyddai'n galluogi i bob gwasanaeth teithwyr sy'n galw yng Ngorsaf Crewe aros wrth blatfformau sydd o fewn prif adeilad yr orsaf. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys adfer platfform 13 fel dewis amgen i blatfform ar Linellau Annibynnol Manceinion, a gynigiwyd yn wreiddiol ym Mil hybrid HS2 Cam 2a. Byddai hyn yn gwella profiad y teithwyr ac yn lleihau amseroedd cyfnewid yng Ngorsaf Crewe. Yn ddarostyngedig i Achos Busnes Llawn a fforddiadwyedd, mae'r Adran Drafnidiaeth yn disgwyl gwneud penderfyniad o blaid y cynllun newydd hwn yn ystod haf 2020.

**Kevin Foster MP/AS**
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**26/07/2019**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw 2019/20 - Adolygiad Chwarter Cyntaf (Mehefin 2019)

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa monitro cyllideb yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

2.1 Nodi a derbyn Adolygiad Chwarter Cyntaf y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 (Atodiad 1).

2.2 Derbyn cadarnhad y Cyd-bwyllgor i ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn (wedi'i chlustnodi ar gyfer y diben yma) i ariannu unrhyw ddiffyg incwm yn 2019/20.

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nodi'r gwariant a ragwelir ar gynllunio prosiectau (a geisir yn allanol a staff) yn 2019/20, tra bod cyfalafu'r costau prosiect hynny ddim yn bosib tan 2020/21, a'r gorwariant a ragwelir ar gostau recriwtio.

**4. Cefndir**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb ar gyfer 2019/20 o £890,250. Roedd hyn yn cynnwys £703,880 ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglen, £153,870 ar gyfer Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a £32,500 ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Daeth y cyfraniadau ariannu yn y gyllideb o Gyfraniadau'r Partneriaid a Chyfalafu Costau Prosiectau. Paratowyd y gyllideb ar sail y wybodaeth a oedd yn wybodus ar y pryd, ac eithrio'r ffaith y caiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg.

4.2 Cadarnhaodd yr Adroddiad Alldro a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais ar 17 Mai 2019 mai (£336,213) oedd tanwariant terfynol blwyddyn ariannol 2018/19. Trosglwyddwyd hwn i'r Gronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi, ac ni chafodd ei gynnwys fel rhan o gyllideb 2019/20.

4.3 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn ariannol, a chyflwynir adroddiad chwarterol i'r Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais.

**5. Gwariant ac incwm yn 2019/20**

5.1 Mae Atodiad 1 yn dangos y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Mae trosglwyddiadau (trosglwyddiadau cyllideb sydd wedi'u cynnwys yn yr ail golofn) yn cynnwys:-

- £20,720 sydd wedi'i drosglwyddo o'r gyllideb Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau i'r gyllideb Gweithwyr i ariannu'r swydd Rheolwr Rhaglen Digidol (cyfeirier at yr adroddiad Diweddariad ar Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 12 Ebrill 2019 ac, wedi hynny, yr adroddiad Strwythur y Swyddfa Rhaglen a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 28 Mehefin 2019).
- £20,000 sydd wedi'i drosglwyddo o'r gyllideb Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Busnes (cyfeirier at yr adroddiad Bwrdd Cyflawni Busnes a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 12 Ebrill 2019).

- £50,320 sydd wedi'i drosglwyddo o'r gyllideb Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau i'r gyllideb Cyflogeion i ariannu'r tair swydd Rheolwr Rhaglen (cyfeirier at yr adroddiad Strwythur y Swyddfa Rhaglen a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 28 Mehefin 2019).

5.3 Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, y gwariant net gwirioneddol oedd £34,677 a'r sefyllfa alldro net a ddisgwylir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cyn y trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yw gorwariant o £97,439.

Swyddfa Rheoli Rhaglen

5.4 Mae rhagamcan o danwariant net o (£35,714) yn y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn 2019/20 gan ei bod hi'n debygol na fydd penodiad i swyddi wedi'u gwneud hyd nes ail a thrydydd chwarter y flwyddyn ariannol.

5.5 Mae'r gwariant o £55,028 ar gyfer Rheoli/Datblygu Rhaglenni yn cynnwys y costau ad-dalu ar gyfer Cyfarwyddwr Arweiniol - Cynllun Twf Gogledd Cymru hyd nes mis Medi 2019.

5.6 Mae'r £45,550 ar gyfer Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr yn ymwneud â recriwtio i'r swydd Cyfarwyddwr Rhaglen sy'n cynnwys costau hysbysebu a chanolfan asesu allanol. Mae'r amcangyfrif wedi'i seilio ar y dybiaeth y caiff y costau gwreiddiol eu dyblygu er mwyn ail-hysbysebu.

5.7 Mae'r gwariant ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau yn cynnwys gwariant chwe mis ar fewnbwn allanol ar gyfer datblygu'r prosiectau ynghyd â chyfraniadau tuag at y prosiectau Sgiliau, Ynni a Digidol.

5.8 Cafodd yr Adroddiad Strwythur y Swyddfa Rhaglen a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 28 Mehefin 2019 ei gymeradwyo ar y sail ei fod yn fforddiadwy o fewn y cyfraniadau ariannol craidd. Ar gyfer 2019/20, gall hyn gael ei wneud drwy ddefnyddio’r cyfraniadau craidd cytunedig ynghyd â reserfau a gariwyd ymlaen. Bydd y fforddiadwyedd ar gyfer 2020/21 yn ddibynnol ar ddêl llwyddiannus a bod cyfalafu’r costau staff sy’n ymwneud â phrosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

5.9 Mae rhagamcan o danwariant net o (£22,720) ar Wasanaethau Cefnogol y Corff Atebol yn 2019/20 sydd yn sgil tanwariant yn y Gefnogaeth Gwasanaethau Ariannol. Er hynny, rhagwelir y bydd y baich gwaith strategol yn drymach yn yr ail a'r trydydd chwarter, pan wneir gwaith ar y Cynllun Ariannol.

Cyd-bwyllgor

5.10 Mae’r rhagamcan o gostau'r Cyd-bwyllgor yn adlewyrchu'r ffigyrau cyllidebol ar gyfer 2019/20.

Cyfraniadau Ariannu

5.11 Caiff y Partneriaid eu hanfonebu yn ystod y flwyddyn yn unol â symiau'r cyfraniadau sydd wedi'u cyllidebu.

5.12 Mae hi'n annhebygol y caniateir i'r Bwrdd Uchelgais gyfalafu unrhyw Gostau Prosiectau yn 2019/20, yn hytrach mae'n debygol y bydd hyn yn dechrau yn 2020/21. Felly, bydd angen trosglwyddo amcangyfrif o £97,439 o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, er mwyn ariannu rhan o wariant 2019/20.

5.13 Mae'r Grŵp Gweithredol wedi bod yn gweithio ar gais ariannu Blaenoriaeth 5 Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) a bellach maent yn bwrw ymlaen i'r Cam Cynllunio Busnes wedi derbyn cadarnhad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Byddai cymeradwyo'r cyllid hwn yn golygu y gellid ariannu hyd at 50% o'r swyddi o fewn y Swyddfa Rheoli Rhaglen hyd at 2022/23. Yn seiliedig ar ein rhagamcan o wariant gweithwyr ar gyfer 2019/20, gellid hawlio £94,377 o gyllid Grant ESF ar gyfer y cyfnod hwn. Os yw'n llwyddiannus, gellid ôl-ddyddio'r grant ESF i fis Mehefin 2018 hefyd, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn ein ffigyrau ar gyfer 2019/20.

**6. Goblygiadau Staffio**

6.1 Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn yn adlewyrchu goblygiadau'r adroddiadau a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 28 Mehefin 2019 ynghylch staffio.

**7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Grŵp Gweithredol ar 5 Gorffennaf 2019, lle y gofynnwyd i'r corff atebol anfonebu'r Partneriaid am gyfraniad cyllidebol 2019/20.

**8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2019/20 - Adolygiad Chwarter Cyntaf (Mehefin 2019).

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Fel trefniant gweithio ar y cyd yn seiliedig ar hyn o bryd ar fodel dirprwyo ariannol o fewn cyfyngiadau mae'n briodol fod y Cyd Bwyllgor yn cynnal trosolwg o'r adnoddau ac ymrwymiadau ariannol.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2019/20 - Adolygiad Chwarter Cyntaf (Mehefin 2019)** **Atodiad 1**

| Gwariant | Cyllideb Wreiddiol (£) | Trosglwyddiadau (£) | Cyllideb Ddiwygiedig (£) | Mehefin 2019 (3 mis) Gwirioneddol (£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol (£) | Amcangyfrif o Orwariant / (Tanwariant) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Rhaglen** | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 246,480 | 71,040 | 317,520 | | 235,434 | (82,086) |
| Ad-daliad Rheoli/Datblygu Rhaglenni | | | | | 55,028 | 55,028 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | | | | 13,775 | 45,550 | 45,550 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 | | 10,000 | | 10,000 | 0 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 11,620 | | 11,620 | 794 | 11,620 | 0 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 45,000 | | 45,000 | 2,800 | 45,000 | 0 |
| Ffi Archwilio Perfformiad | 12,500 | | 12,500 | | 12,500 | 0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,000 | | 10,000 | 955 | 10,000 | 0 |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | 43,480 | | 43,480 | | 42,282 | (1,198) |
| Eiddo | 5,000 | | 5,000 | | 5,000 | 0 |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau | 319,800 | (91,040) | 228,760 | 13,509 | 175,752 | (53,008) |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen** | **703,880** | **(20,000)** | **683,880** | **31,833** | **648,166** | **(35,714)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 105,710 | | 105,710 | | 82,990 | (22,720) |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 16,000 | | 16,000 | | 16,000 | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 29,400 | | 29,400 | 1,210 | 29,400 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,760 | | 2,760 | | 2,760 | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **153,870** | **0** | **153,870** | **1,210** | **131,150** | **(22,720)** |
| **Cyd-bwyllgor** | | | | | | |
| Cytundeb Llywodraethu 2 - Cyfreithiol | 20,000 | | 20,000 | | 18,366 | (1,634) |
| Cytundeb Llywodraethu 1 - Cyfreithiol | | | | 1,634 | 1,634 | 1,634 |
| Ffi Archwilio Allanol | 12,500 | | 12,500 | | 12,500 | 0 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | | 20,000 | 20,000 | | 20,000 | 0 |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **32,500** | **20,000** | **52,500** | **1,634** | **52,500** | **0** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **890,250** | **0** | **890,250** | **34,677** | **831,816** | **(58,434)** |

| Incwm | Cyllideb Wreiddiol<br>(£) | Trosglwyddiadau<br>(£) | Cyllideb Ddiwygiedig<br>(£) | Mehefin 2019 (3 mis) Gwirioneddol<br>(£) | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol<br>(£) | Amcangyfrif o Orwariant / (Tanwariant)<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | | | | | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid - GA1** | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (50,000) | | (50,000) | | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,000) | | (50,000) | | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (50,000) | | (50,000) | | (50,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (50,000) | | (50,000) | | (50,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,000) | | (50,000) | | (50,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (50,000) | | (50,000) | | (50,000) | 0 |
| Prifysgol Bangor | (25,000) | | (25,000) | | (25,000) | 0 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (25,000) | | (25,000) | | (25,000) | 0 |
| Coleg Cambria | (25,000) | | (25,000) | | (25,000) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | (25,000) | | (25,000) | | (25,000) | 0 |
| **Cyfraniadau Partneriaid - Eraill** | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) | | (40,000) | | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) | | (40,000) | | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) | | (40,000) | | (40,000) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) | | (40,000) | | (40,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) | | (40,000) | | (40,000) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) | | (40,000) | | (40,000) | 0 |
| Cyfalafu Costau'r Prosiectau | (250,250) | | (250,250) | 0 | 0 | 250,250 |
| Sector Preifat (yn y dyfodol) | 0 | | 0 | | | 0 |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | | | | | (94,377) | (94,377) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(890,250)** | **0** | **(890,250)** | **0** | **(734,377)** | **155,873** |
| **Sefyllfa Gorwariant / (Tanwariant) cyn y trosglwyddiad o'r Gronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi** | **0** | **0** | **0** | **34,677** | **97,439** | **97,439** |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | | | | | (97,439) | (97,439) |
| **Gorwariant / (Tanwariant) Net** | **0** | **0** | **0** | **34,677** | **0** | **0** |

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**26 GORFFENNAF 2019**



| | |
|---|---|
| **TEITL:** | *Cais Adeiladu Capasiti Sefydliadol ESF* |
| **AWDUR:** | *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*<br>*Barbara Burchell – Prif Swyddog Datblygu Prosiectau Ewropeaidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* |



## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu'r cynnig gan y Bwrdd Uchelgais i WEFO ar gyfer y gronfa Adeiladu Capasiti Sefydliadol ESF.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno i barhau i ddatblygu Cynllun Busnes i WEFO.

2.2. Cytuno i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i arwain ar ddatblygu Cynllun Busnes.

2.3. Cytuno i gyflwyno adroddiadau chwarterol ar y cynnydd i'r Bwrdd Uchelgais.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1. Sefyllfa Bresennol

4.1.1. Mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi bod yn gweithio ar gais Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) i ddylunio ac adeiladu'r capasiti angenrheidiol ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.1.2. Mae cam cyntaf y cais, y Tabl Rhesymeg Gweithredu (OLT) (Atodiad 1) wedi'i gwblhau ac mae WEFO wedi cadarnhau y gall y Bwrdd Uchelgais fwrw ymlaen i'r Cam Cynllunio Busnes, lle byddwn yn datblygu'r manylion ar gyfer cyflawni.

4.1.3. Mae'r OLT yn amcangyfrif cyfanswm cost prosiect o hyd at £6 miliwn, gyda 50% wedi'i ariannu gan ESF. Byddai'r cyllid hwn yn caniatáu i ni ariannu swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen hyd at fis Mehefin 2023, yn ôl-weithredol i fis Mehefin 2018.

### 4.2. Arian ESF

#### 4.2.1. Echel Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol

4.2.2. Mae'r cais am gyllid ar gyfer Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol.

4.2.3. Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar Amcan Thematig (11) - Adeiladu Capasiti Sefydliadol). Mae'r cyfiawnhad ar gyfer yr echel blaenoriaeth fel a ganlyn: *Mae sail tystiolaeth gynyddol sy'n pwyntio at bwysigrwydd capasiti sefydliadol fel ffactor sy'n effeithio ar lwyddiant cymharol buddsoddiadau rhanbarthol (OECD). Felly, gall cael y capasiti cywir yn ei le chwyddo effaith buddsoddiadau rhanbarthol; gyda threfniadau aneffeithiol yn cael effaith negyddol. O ganlyniad, mae diffyg capasiti yn rhanbarthau Cymru yn risg i danseilio buddsoddiadau a wneir ar draws y gyfres gyfan o raglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yng Nghymru a'r tu hwnt. Gall gweithredu trefniadau rhanbarthol yn effeithiol integreiddio buddsoddiadau'n well mewn llefydd a gwella effeithiolrwydd ac effaith y buddsoddiadau hynny ar y cyd ac yn unigol.*

4.2.4. O fewn y cyllid, mae gofyn cyflawni dangosyddion canlyniadau ac allbynnau:

- *Dangosydd canlyniadau:* *Nifer y dulliau, y gweithdrefnau a'r teclynnau newydd a ddatblygir ac a ddosberthir.*
- *Allbynnau:* *Nifer y prosiectau sy'n targedu gweinyddiaeth gyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol; Nifer yr endidau* sy'n cymryd rhan mewn prosiectau sy'n targedu gweinyddiaeth gyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.*

## 4.3. Cynllun Busnes Hwyluswyr Gweledigaeth Twf y Bwrdd Uchelgais

4.3.1. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yn y Gogledd, mae arnom angen i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a'u gweithlu fod yn flaengar, yn wydn ac yn gysylltiedig, gan fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cymhleth ynghylch tlodi, anghyfartaledd, llymder ac arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau, a chynyddu disgwyliadau ac ymateb i ddeddfwriaeth.

4.3.2. Mae'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled y Gogledd oll yn canolbwyntio ar y gwaith sylweddol o yrru amcanion a chynlluniau iechyd a llesiant ond nid oes cerbyd rhanbarthol i gysylltu, rhannu a darparu her a chefnogaeth adeiladol mewn ffordd strategol sydd wedyn yn cysylltu â'r Bwrdd Uchelgais, y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac ati.

4.3.3. Dau o'r heriau allweddol yw datblygu

- Gweithlu sy'n meddwl ac yn gweithio mewn ffordd systemau cyfan a
- Lle i gysylltu a hwyluso ffyrdd newydd o feddwl, dulliau gweithredu a phrofi integreiddio gwasanaethau, sy'n gweithio ar draws ffiniau sectorau, sefydliadau a systemau.

4.3.4. Mae gennym un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i'r Gogledd. Caiff ei chyflawni drwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, gydag ymglymiad cryf gan y sector preifat ac ymagwedd 'Tîm Gogledd Cymru', gan adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos.

4.3.5. Bydd cyflawni'r Weledigaeth yn dangos yn glir sut mae'r Gogledd yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Strategaeth Ddiwydiannol a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru.

## 4.4. Swyddfa Rhaglen - darparu gweithgaredd 'un tîm Gogledd Cymru'

4.4.1 Gweithio'n wahanol gyda'n gilydd - tîm proffesiynol craidd a rhwydwaith o ymgynghorwyr partner yn rhoi cyngor proffesiynol, cefnogaeth ar lywodraethu, gwasanaethau proffesiynol a chapasiti rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni'r meysydd a nodir isod:

**4.4.2. Datblygu'r Economi/Adfywio/Safleoedd ac Eiddo**

4.4.2.1. Dull gweithredu rhanbarthol cydlynol i ddatblygu'r economi; bydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn rhoi'r cyfeiriad strategol i'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn y rhanbarth; goruchwylio cyflawni'r rhaglen o Brosiectau Adfywio a ariannir drwy'r rhaglen TRI gan sicrhau monitro perfformiad, rheolaethau ariannol, trefniadau llywodraethu a rheolaeth risg effeithiol ar lefel Rhaglen.

4.4.2.2. Cyswllt â gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol yn nhermau Sgiliau a Chyflogaeth; Cyswllt â'r Canolbwyntiau Busnes arfaethedig a'r rhai sy'n weithredol ar hyn o bryd

4.4.2.3. Sefydlu a chynnal Cynllun Adfywio hir-dymor i ranbarth y Gogledd, gan amlinellu cyfeiriad strategol a blaenoriaethau y cytunir arnynt yn rhanbarthol.

**4.4.3. Digidol**

4.4.3.1. Cysylltedd Rhanbarthol LFFN i hwyluso arloesedd a gweithio'n fwy clyfar, gwella faint y gall busnesau gystadlu, tra bod gan fusnesau a thrigolion y capasiti a'r wybodaeth i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd digidol o safon uchel. Mae prosiectau'n cynnwys

- Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru - isadeiledd symudol a band eang sefydlog sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi gweithgaredd busnes cystadleuol newydd a phresennol yn y Gogledd.
- Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol - trosglwyddo gweithgareddau Ymchwil a Datblygu a yrrir gan y farchnad yn gynnyrch, yn brosesau ac yn wasanaethau y gellir manteisio'n fasnachol arnynt ar gyfer cyfathrebu digidol.
- Sgiliau Digidol i'r Gogledd - y nod yw datblygu cynllun cyflawni clir i wella sgiliau digidol y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn y Gogledd (cyswllt â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'r Llwybr Cyflogadwyedd).

**4.4.4. Ynni**

4.4.4.1. Rheolwr a swyddog rhaglen i hwyluso gweithio cydgysylltiedig a chydlyniad nifer o brosiectau bach o fewn cymunedau a phrosiectau mwy ledled y rhanbarth, i alluogi gweithio mewn partneriaeth ar gyfer storio ynni a chynhyrchu incwm.

4.4.4.2. Bydd y Prosiectau o fewn y Weledigaeth Twf yn sicrhau bod gan y rhanbarth arbenigedd byd-eang a rhwydwaith o ganolfannau byd-eang i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd mewn sectorau economaidd allweddol a thrwy hynny hwyluso buddsoddiad newydd, twf a swyddi o ansawdd yn y Gogledd.

**4.4.5. Trafnidiaeth**

4.4.5.1. Cyflawni rhaglen trafnidiaeth strategol y Rhanbarth er mwyn gwella cysylltedd rhanbarthol, mynediad i gyflogaeth a thwf economaidd a busnesau. Bydd trafnidiaeth wedi'i hintegreiddio'n well a bydd dewisiadau amgen i fynediad ar ffyrdd yn cael eu datblygu. Caiff y rhanbarth ei baratoi ar gyfer datgarboneiddio ein rhwydweithiau trafnidiaeth.

**4.4.6. Sgiliau a Chyflogaeth**

4.4.6.1. Porth Gwybodaeth a Chyngor

- Mae'r rhaglen Llwybrau Sgiliau a Chyflogaeth yn cynnwys prosiectau a fydd yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth ar sgiliau a chyflogaeth mwy cydlynol yn y rhanbarth. Cyswllt â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol - STEM Rhanbarthol - cyflawni rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau; Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Addysg Uwch Gogledd Cymru; Awtomatiaeth Ddigidol Gogledd Cymru; Uwchsgilio Arweinyddiaeth ac Arweinyddiaeth Systemau, gyda chysylltiadau â Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru.

4.4.6.2. Prosiect Llwybr Cyflogadwyedd

- Datblygu Fframwaith Llwybr Cyflogadwyedd Rhanbarthol, y byddai partneriaid yn y rhanbarth yn ymrwymo iddo a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar eu penderfyniadau ariannu, comisiynu a darparu gwasanaeth. Tanategir y Fframwaith gan gyflawni amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau yn lleol ac yn rhanbarthol a bydd comisiynu Cenedlaethol y contractau rhaglenni cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio, sydd allan i dendr ar hyn o bryd, yn cyd-fynd ag ef.

- Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar well dealltwriaeth a chydlynu cyflawni'r rhaglenni a'r gwasanaethau hyn o fewn elfennau cyffredin y Fframwaith, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael.

- Mae angen arian er mwyn symbylu'r gweithgaredd datblygu a chydlynu'r fframwaith.

### 4.4.7. Twristiaeth

4.4.7.1. Cefnogi cyflawni prosiectau strategol a fydd yn rhoi hwb i enw da'r rhanbarth fel prif leoliad y DU ar gyfer twristiaeth antur, gan wneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol a chyflawni gwerth economaidd o'r amgylchedd hwnnw. Cyswllt gyda Chanolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch y Gogledd, gyda ffocws clir ar ymestyn y tymor a chynyddu'r sail gwerth yn nhermau swyddi, enillion ac ychwanegu gwerth. Mae angen Swyddog Hwyluso er mwyn ymgysylltu â'r sector preifat a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o dwf rhyngwladol yn y farchnad ymwelwyr twristiaeth antur.

### 4.4.8. Swyddfa Rhaglen/Cefnogaeth y Prosiect ESF

4.4.8.1. Swyddog Gweinyddol i gefnogi sefydlu Swyddfa Rhaglen Gogledd Cymru a'i gweithgareddau, sef y prif cerbyd i ddechrau, cydlynu a chyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru.

4.4.8.2. Cydlynydd Prosiect ESF (0.5 cyfwerth ag amser llawn) i sicrhau bod yr holl weithgaredd yn gymwys am gyllid drwy ESF a pharatoi a chyflwyno hawliadau, cynnal trywydd archwilio cadarn a choladu tystiolaeth o allbynnau i adrodd i WEFO.

### 4.4.9. Amcangyfrifon Ariannu Swyddi

4.4.9.1. Bydd y Cyllid ESF yn cyfrannu at swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen. Mae cynnig drafft o'r math o rolau fyddai'n gymwys am gyllid wedi'u rhestru isod:

| Swydd | Cyflog y flwyddyn £ Yn cynnwys argostau | Cyfanswm cost hyd at 31/12/23 * £ |
|---|---|---|
| Rheolwr Rhaglen Safleoedd ac Eiddo | 57,200 | 257,400 |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu'r Economi/Adfywio/Safleoedd ac Eiddo - Swyddog Rhaglen | 49,400 | 222,300 |
| Digidol - Rheolwr Rhaglen | 57,200 | 257,400 |
| Digidol - Swyddog Rhaglen | 49,400 | 222,300 |
| Ynni - Rheolwr Rhaglen | 57,200 | 257,400 |
| Ynni - Swyddog Rhaglen | 49,400 | 222,300 |
| Trafnidiaeth - Rheolwr Rhaglen | 57,200 | 257,400 |
| Trafnidiaeth - Rheolwr Prosiect | 49,400 | 222,300 |
| Sgiliau – Swyddog Prosiect | 49,400 | 222,300 |
| Sgiliau - Swyddog Prosiect | 49,400 | 222,300 |
| Twristiaeth - Swyddog Hwyluso (0.5 FTE) | 24,700 | 111,150 |
| Swyddfa Rhaglen/Cefnogaeth y Prosiect ESF | 28,600 | 128,700 |
| Cydlynydd Prosiect Blaenoriaeth 5 ESF (0.5 FTE) | 19,500 | 87,750 |
| **Cyfanswm Cost Staff** | **598,000** | **2,691,000** |
| **40% Cost Syml** | | **1,076,400** |
| **AMCANGYFRIF O GYFANSWM Y PROSIECT** | | **3,767,400** |

4.4.9.2. Mae'r tabl uchod yn ddarostyngedig i newid yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Busnes. Yn ychwanegol, bydd costau ôl-weithredol ar gyfer swyddi yn ystod y trefniadau trosiannol.

4.4.9.3. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn cyflwyno hawliadau ariannol rheolaidd i WEFO er mwyn hawlio'r grant ESF. Bydd yr hawliadau ariannol yn cynnwys holl gostau staff cymwys, ac yn unol a chanllawiau'r grant byddwn yn hawlio swm sylfaenol wedi ei gyfrifo fel 40% o gostau staff er mwyn cynnwys yr holl wariant arall o fewn y prosiect (hyfforddiant, costau rheoli prosiect anuniongyrchol, costau i gefnogi'r hawliad, ayyb), neu ar gyfer arian cyfatebol.

**4.5. Grŵp Tasg a Gorffen**

4.5.1. Byddwn yn sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer arwain ar ddatblygu Cynllun Busnes llawn i WEFO.

4.5.2. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.

4.5.3. Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn adrodd yn fisol ar y cynnydd i'r Grŵp Swyddogion Gweithredol, ac yna yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais ar ddatblygiad y Cynllun Busnes. Bydd copi o'r Cynllun Busnes Terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth cyn cyflwyno i WEFO.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Bydd y Cyllid ESF yn un ffynhonnell ariannol i gyllido'r Swyddfa Rhaglen. Mae'r Tabl Rhesymeg Gweithredu (OLT) yn amcangyfrif uchafswm cyfanswm cost prosiect o £6 miliwn, gyda 50% wedi'i ariannu. Gwneir dadansoddiad manwl o'r gost a'r cyfraniad ariannol yn ystod y cam Cynllunio Busnes.

5.2. Bydd gofyn i'r Bwrdd Uchelgais gyfrannu arian cyfatebol o 50% tuag at y Cyllid ESF, a gall hyn fod yn gyfuniad o Gyfalafu, Cost Syml a chyfraniadau eraill. Bydd holl opsiynau ar gyfer arian cyfatebol yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod Cynllunio Busnes.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd yr adroddiad a'i gymeradwyo gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 5 Gorffennaf, 2019.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):**

"Deallaf fod tebygolrwydd go uchel y bydd BUEGC yn sicrhau'r grant Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ('ESF'), a byddai'r incwm hynny yn gyfraniad hynod werthfawr tuag at gostau staffio'r Swyddfa Rhaglen.

Gan fod yr adroddiad yma'n cynnwys rhestr gyda mwy o swyddi i gyflogi, nodaf wrth gynllunio fod risg, ar ôl i'r Cais / Bargen ddatblygu, ar ryw adeg yn y dyfodol, ni fydd angen yr holl staff hynny. Felly, dylem neilltuo arian mewn cronfa wrth gefn benodol, a'i glustnodi ar gyfer costau diswyddo posibl. Byddwn yn ystyried hyn yn y cynllun ariannol ar gyfer 2020/21 a tu hwnt."